



GWEITHIO I WIREDU DYFODOL IACHACH I GYMRU

**ADRODDIAD BLYNYDDOL
2021/22**



**GIG
CYMRU
NHS
WALES**

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales





CYNNWYS

Rhagair – Jan Williams	4
Rhagair – Tracey Cooper	6
Cyflwyniad	10
Ein Cynllun Gweithredol 2021/2022	12
Ein cynnydd o dan ein Cynllun Gweithredol 2021/22	16
Yr ymateb i COVID-19 ym maes diogelu iechyd	18
Yr ymateb i COVID-19 ym maes diogelu iechyd	19
Profion COVID-19	20
Uned Genomeg Pathogenau Iechyd Cyhoeddus Cymru	22
Canlyniadau ym maes iechyd y boblogaeth	24
Sganio Gorwelion Rhyngwladol	26
Arolwg Cenedlaethol i Ymgysylltu â'r Cyhoedd	27
Parhau ac ailgychwyn ein swyddogaethau, ein rhaglenni a'n gwasanaethau ym maes iechyd y cyhoedd	28
Brechu ac imiwneiddio	28
Cadw gwyliadwriaeth a rhannu gwybodaeth	29
Gwasanaethau microbioleg	31
Helpu i leihau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd	32
Adfer a Datblygu Gwasanaethau Sgrinio	33
Gwella Iechyd	36
Gwelliant Cymru	38
Gofal Sylfaenol	44
Materion diogelu	45
Data, Gwybodaeth ac Ymchwil	47
Dysgu sefydliadol, gwybodaeth a naratif COVID-19	52
Casglu gwersi i'w dysgu	52
Galluogi'r sefydliad	54
Adolygu ein Strategaeth Hirdymor	54
Gwneud penderfyniadau doeth	55
Rheoli risgiau	55
Ansawdd a gwella	56
Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ('y Ddeddf Ansawdd')	56
Model Llywodraethu Integredig	56
Gweithio i Wella	57
Ein Hystad	59
Ein Pobl	60
Absenoldeb oherwydd salwch	62
Lles y staff	62
Cyflawniadau'r staff	63
Casgliad ac edrych ymlaen	64
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	66

RHAGAIR

JAN WILLIAMS OBE, CADEIRYDD Y BWRDD

Dechreuodd 2021/22 wrth i Iechyd Cyhoeddus Cymru barhau i ymateb i COVID-19 drwy wneud gwaith arwain systemau effeithiol, gyda chyfraniadau'r gwasanaethau Diogelu Iechyd, Cadw Gwylidwriaeth a Microbioleg yn cynyddu'n sylweddol, y tro hwn yn sgil amrywiolyn Omicron.

Drwy gydol y flwyddyn, fe ddangosodd pawb ymroddiad diflino i Iechyd y Cyhoedd ac i ddiogelu holl bobl Cymru; roeddwn i wrth fy modd pan anfonodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol neges arbennig at yr holl staff, gan roi teyrnged i waith hollbwysig Iechyd Cyhoeddus Cymru yn arwain systemau, a chrybwyll werth y cyngor a'r arweiniad a roddwyd gan ein gweithwyr proffesiynol drwy gydol y pandemig.

Gwelwyd enghraifft arall o anhunanoldeb ac awydd staff Iechyd Cyhoeddus Cymru i wasanaethu'r cyhoedd yn sgil yr ymateb dyngarol gan gynifer o'u plith i'r ymosodiad ar Wcráin. Fel Sefydliad Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, rydyn ni hefyd yn gweithio gydag eraill yng Nghymdeithas Ryngwladol y Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus i helpu ein cydweithwyr ym maes Iechyd y Cyhoedd yn Wcráin. Crybwyllais y llynedd fod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyflawni pethau mawr fel Sefydliad Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn sgil y pandemig, ac mae adroddiad blynyddol 2021/22 yn dangos sut y mae'r rôl honno wedi parhau i ddatblygu.

PMae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflogi staff eithriadol o dalentog ac ymroddedig. Cafodd Kate Eden, y dirprwy gadeirydd, a minnau y fraint a'r pleser o gyfarfod â nifer o'r rhain yn rhithwir drwy gydol y flwyddyn, wrth inni 'alw heibio' i dimau o'r gwasanaethau Porthladdoedd a Ffiniau, Hwb Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Ymchwil a Gwerthuso, Gwelliant Cymru, y Rhaglen Brechu a Chlefydau Ataliadwy, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd, a Phobl a Datblygu Sefydliadau. Drwy'r holl sefydliad, fe glywsom ni sut roedd pobl yn llwyddo i gyflawni o dan y Cynllun Gweithredol – sy'n gryn gamp, ac ystyried yr heriau – ond fe glywsom ni hefyd am gynlluniau uchelgeisiol at y dyfodol. Nid yn unig y canolbwyntiodd yr Is-adran Sgrinio ar ailgychwyn gwasanaethau, ond hefyd fe edrychodd ar y cyfleoedd i drawsnewid pethau, tra

parhaodd PenGu ar drywydd sydd ar flaen y gad yn y byd, gan ddilyniannodi 200k o genomau a sicrhau achrediad UKAS 15189 – sy'n gamp a hanner i'r labordy ac i'n biowybodegyddion!

Yn ein rôl fel Sefydliad Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, fe wnaethon ni gadw golwg ofalus hefyd ar y niwed mwy hirdymor sy'n deillio o COVID-19. Law yn llaw â Sefydliad Iechyd y Byd a Llywodraeth Cymru, aeth Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ati i greu'r cynllun Adroddiad Statws Iechyd Cymru (WHESRI), sy'n gynllun arloesol i roi sylwadau am Iechyd a lles y genedl. Gwnaeth y tîm Polisi ac Iechyd Rhyngwladol hefyd yn sicr bod Cymru'n elwa o waith i sganio'r gornelion rhyngwladol. Dangoswyd y pwys y mae Sefydliad Iechyd y Byd yn ei roi ar statws Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth iddo ailddynodi'r Ganolfan am dymor arall o bedair blynedd, sy'n deyrnged haeddiannol i dymor rhagorol cyntaf y Ganolfan.

Drwy gydol y flwyddyn, dangosodd cyfres o adroddiadau ddylanwad Iechyd Cyhoeddus Cymru fel Sefydliad Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ym maes polisiau ac ymarfer, gan gynnwys: *Yr Adroddiad ar Incwm Sylfaenol; Her Driphlyg Brexit; Cyni a'r Newid yn yr Hinsawdd; Adolygiad o Torri Tir Newydd; COVID-19 a newidiadau o ddiweithdra yng Nghymru.*

Canolbwyntiodd y Bwrdd ar lywodraethu da ac roedd Adroddiad Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru yn cynnwys sgôr 'sylweddol' arall, sy'n deyrnged i bawb sy'n gweithio mor galed y tu ôl i'r llen ar faterion llywodraethu.

Yn ystod y flwyddyn, treuliodd y Bwrdd rywfaint o amser ar ei waith yn gosod cywair a diwylliant y sefydliad; mae cyfarwyddwyr y Bwrdd yn glir eu barn y dylai pob aelod o staff allu dod i'r gwaith a bod ar eu gorau, a hynny fel nhw'u hunain, heb fod ofn gwahaniaethu nac anfantais o unrhyw fath. Mae'r Bwrdd yn ymfalchïo ei fod yn gallu gweld pethau yn llygad y ffynnon ar y rheng flaen, ac yn 2021/22 fe gawson ni'r fraint o gyfarfod â phob un o'r pum Rhwydwaith Staff, er mwyn clywed mwy am eu safbwyntiau a'r problemau roedden nhw'n eu gweld. Yn sgil ein cyfarfod â'r Rhwydwaith Staff BAME, aethon ni ati i gofrestru gydag addewid Dim Goddefgarwch tuag at Hiliaeth Race Council Cymru; roedden ni hefyd wrth ein boddau ein bod wedi symud yn uwch ar Fyngai 100 Cyflogwr Gorau Stonewall, o rif 100 i rif 64, a'n bod wedi cael tystysgrif arian am gymhwysedd diwylliannol gan Diverse Cymru. Mae'r Bwrdd wastad yn ymwybodol bod rhagor i'w wneud, ond eleni fe gyflawnwyd pethau gwirioneddol, a bydd modd datblygu ar hynny.

Fe ffarweliodd â Judi Rhys – daeth ei thymor yn aelod o'r Bwrdd i ben ym mis Mawrth 2022. Roedd Judi yn gyfarwyddwraig anweithredol benigamp; roedd hi wastad wedi paratoi'n drylwyr, byddai'n canolbwyntio ar y pethau pwysig, roedd hi'n herio'n adeiladol, ac wastad yn barod i gynnig cymorth a chefnogaeth. Rwy'n fy ystyried fy hun yn hynod o ffodus i fod wedi gweithio ochr yn ochr â Judi, ac rwy'n ffodus hefyd i gael gweithio gyda fy holl gydweithwyr ar y Bwrdd. Rwy'n ddyledus iddyn nhw am eu cefnogaeth ddiwyro a'u cyfraniadau gwybodus bob amser, boed yng nghyfarfodydd llawn y Bwrdd neu yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau. Fe barhaodd Kate Eden a Dyfed Edwards, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol, i roi cyngor doeth imi, a drachefn, rwy'n diolch i'r naill a'r llall, ac felly hefyd i Gadeiryddion y Pwyllgorau a'r prif Swyddogion Gweithredol.

O dan arweinyddiaeth ysbrydoledig Tracey, fe roddodd y Cyfarwyddwyr Gweithredol arweinyddiaeth ystwyth ac effeithiol i'r sefydliad, gan sicrhau bod y swyddogaethau galluogi corfforaethol hanfodol yn cyfrannu'n llawn at gyflawni'r Cynllun Gweithredol, ochr yn ochr â'u cymheiriaid yn y timau darparu gwasanaethau, polisi ac ymchwil. Mae GIG Cymru yn parhau i fod yn ffodus o gael Tracey yn un o'i uwch arweinwyr, yn sgil ei gweledigaeth a'i hymroddiad diwyro i iechyd y cyhoedd; mae hi wastad yn fraint cydweithio â hi.



'Mae cyfarwyddwyr y Bwrdd yn glir eu barn y dylai pob aelod o staff allu dod i'r gwaith a bod ar eu gorau, a hynny fel nhw'u hunain, heb fod ofn gwahaniaethu nac anfantais o unrhyw fath.'

Rhaid rhoi teyrnged arbennig i Huw George, Angela Fisher, Jane Matthews a'r tîm cyllid. O dan arweinyddiaeth gadarn a doeth Huw, daeth blwyddyn Iechyd Cyhoeddus Cymru i ben gydag arian mewn llaw a'r sefydliad mewn sefyllfa ariannol gref ar drothwy 2022/23.

Yn 2021/22, dychwelodd y broses o osod cyfeiriad strategol, a hynny wrth ddechrau gwaith ar y Strategaeth Hirdymor o'r newydd, gan gynnwys lansio strategaeth Gwelliant Cymru, *'Gwella Ansawdd a Diogelwch'*, y strategaeth ansawdd a diogelwch fewnol, a glasbrint yr Uned Gwyddorau Ymddygiadol. Bydd y tri olaf o'r rhain yn sail i'r Strategaeth Hirdymor nesaf, ac ym mis Mawrth 2023, fy mraint a'm pleser fydd cnoi cil am y broses o greu'r ddogfen hon, ynghyd â thrafod blwyddyn arall o gyflawni i Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Jan Williams OBE
Cadeirydd y Bwrdd
Iechyd Cyhoeddus Cymru

RHAGAIR

TRACEY COOPER, CHIEF EXECUTIVE



Mae'n bleser cyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22. Drachefn, mae ein pobl hynod o ymroddedig wedi mynd y filltir ychwanegol, gan gydweithio â'i gilydd ac â'n partneriaid drwy Gymru a threulio blwyddyn ryfeddol arall yn diogelu a hybu iechyd a lles pobl Cymru. Rwy'n hynod o falch o allu rhannu â chi y gwaith eithriadol y mae ein holl bobl wedi'i wneud drwy'r holl sefydliad, a hynny i gefnogi Cymru ar adeg mor heriol.

Ni yw Sefydliad Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, a'n gweledigaeth yw *'Gweithio i wireddu dyfodol iachach i Gymru'*.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydyn ni wedi bwrw ati mewn ffordd ddigynsail i ymateb i bandemig y Coronafeirws. Bu hyn yn rhan o ymdrech drwy'r system gyfan i ymateb yn effeithiol i'r heriau rydyn ni wedi'u hwynebu wrth i'r pandemig esblygu.

Roedd 2020/21 yn flwyddyn eithriadol o heriol, gyda'r holl sefydliad yn canolbwyntio ar arwain systemau wrth ymateb i bandemig COVID-19 a rhoi cyngor yn ei gylch. Wrth inni symud i 2021/2022, ni thawelodd pethau, ac mewn rhai ffyrdd, cynyddu wnaeth yr her wrth inni'n raddol ddechrau symud a dychwelyd staff yn ôl i'w swyddi craidd. Mae ailgychwyn holl ehangder ein gwaith a'n swyddogaethau statudol ym maes iechyd y

cyhoedd wedi bod yn ffocws o bwys yn ystod y flwyddyn. Ar yr un pryd, parhawyd i ganolbwyntio ar ymateb, cynghori ac esblygu ein gwaith ym maes diogelu iechyd i greu model ymateb mwy cynaliadwy a fydd yn parhau'n addas i'w ddiben y tu hwnt i COVID-19. Bu cynnydd cysylltiedig mewn recriwtio staff er mwyn helpu gyda'r ymateb ym maes diogelu iechyd.

Rydyn ni hefyd wedi rhoi mwy o bwyslais ar ddealltwriaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ar gynghori am effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol COVID-19 ar iechyd y boblogaeth yn y tymor canolig a'r tymor hwy – rhywbeth sydd wedi dod yn fwy arwyddocaol fyth i ni ac i bobl Cymru.

Mae ein gwaith wedi parhau i brysuro rhagddo eleni, a hynny yn dilyn 2020/21 eithriadol o brysuro, ac mae hynny wedi golygu ein bod yn rhoi cryn bwys ar les a gwydnwch ein staff. Mae ein pobl wedi gweithio'n ddiflino, ac rydyn ni wedi bod yn ymwybodol o hyn wrth inni symud drwy'r camau i ailgychwyn ac adfer gwaith y sefydliad. Mae'r pwyslais ar les ein pobl yn dal yn flaenoriaeth bwysig inni, ynghyd â chynyddu ein ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a datblygu ein dull Gweithio Ble Mae'n Gweithio Orau – sef dull rydyn ni'n ei gyd-ddylunio â'n pobl i benderfynu ar ein ffyrdd o weithio fel sefydliad yn y dyfodol.

Yn yr Adroddiad Blynnyddol hwn, rydyn ni'n cyflwyno nifer o gyflawniadau eithriadol ein pobl ac amrywiaeth eang o waith a wnaed drwy gydol y flwyddyn. Detholiad yn unig a geir o'r gwaith rhagorol a wnaed drwy'r sefydliad. Bu sawl uchafbwynt yn ystod y flwyddyn wrth edrych ar amrywiaeth eang ein swyddogaethau, ac mae'n anodd gwneud cyfiawnder â phob un mewn cyflwyniad fel hwn. Gan hynny, dyma flas ichi o rai o'r uchafbwyntiau isod.

Yn gynnar yn 2021, cafodd ein Cynllun Gweithredol ei ddiweddarau er mwyn sicrhau ei fod yn mynegi'n glir y camau roedden ni'n bwriadu'u cymryd i roi ar waith y blaenoriaethau y cytunwyd arnyn nhw. Fel rhan o'r broses hon, cafodd ein blaenoriaethau presennol eu dilysu a'r cerrig milltir sy'n sail iddyn nhw eu diweddarau er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r gwerth mwyaf posibl am arian i Gymru.

Mae'r angen am ddata ym maes cadw gwyliadwriaeth ac epidemioleg er mwyn helpu gyda phandemig COVID-19 hyd yma wedi bod y tu hwnt i ddim a brofwyd o'r blaen. Mae ein Canolfan Wyliadwriaeth ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy hefyd wedi parhau i gynnal cynlluniau cadw gwyliadwriaeth hanfodol eraill, gan ailflaenoriaethu, lleihau neu ehangu'r cynlluniau hynny yn ôl y galw, a thargedu adnoddau dadansoddol.

Mae genomeg pathogenau yn faes sydd wedi tyfu'n sylweddol yn lechyd Cyhoeddus Cymru dros y 12-18 mis diwethaf, fel y gwelwyd yn sgil cyfraniad genomeg at yr ymateb i bandemig COVID-19. Ers dechrau dilyniannodi SARS-CoV-2 ym mis Mawrth 2020, mae ein Huned Genomeg Pathogenau wedi prosesu dros 150,000 o samplau SARS-CoV-2, gan gynnwys samplau gan bobl o'r tu allan i Gymru i helpu gyda'r ymateb ledled y Deyrnas Unedig. Yn fyd-eang, mae Cymru ymhlith y deg gwlad uchaf o ran y genomau a gyflwynwyd ar gyfer COVID-19.

Mae ein gwasanaethau microbiolog wedi parhau i ddarparu profion nad ydyn nhw'n ymwneud â COVID ar lefelau digynsail, yn ychwanegol at ein hymateb i'r pandemig. Cyn y pandemig, i gyd, roedd 1.3m o samplau wedi'u prosesu a'u profi, a chynyddodd y ffigur i 1.7m yn 2021/22. At hynny, mae'r gwasanaeth wedi gwneud nifer tebyg o brofion am COVID-19 yn ystod y cyfnod hwn. Dyna gamp eithriadol.



Ffocws arall yn ystod y flwyddyn oedd gwaith atal, gwaith ym maes cynaliadwyedd, a gwaith i ddatblygu iechyd a gwydnwch ein cymunedau. Gan weithio gyda'n partneriaid i gryfhau penderfyniadau ehangach disgwyliad oes iach, ein nod oedd dylanwadu ar ymddygiad iach drwy raglenni wedi'u targedu ym maes iechyd y cyhoedd.

Fe wnaethon ni hefyd barhau i ailgychwyn a datblygu ein rhaglenni sgrinio.

Ar ôl ymgynghori a thrafod â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a phartneriaid allanol, mae Gwelliant Cymru wedi datblygu strategaeth newydd, *Gwella Ansawdd a Diogelwch 2021-2026*, a lansiwyd ar Ddiwrnod Diogelwch Cleifion y Byd (17 Medi 2021), a hwnnw'n cyd-fynd â chyhoeddi *Fframwaith Ansawdd a Diogelwch* Llywodraeth Cymru. Gweithiodd Gwelliant Cymru gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu dealltwriaeth gref o anghenion ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd a gofal wrth ymateb i'r heriau roedden ni'n dal i'w hwynebu, i'r pandemig, ac i ddatblygiadau polisi. Mae Gwelliant Cymru wedi cyflymu ei waith i ymateb wrth gefnogi'r GIG ar yr adeg heriol hon.

Mae Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd wedi defnyddio ein partneriaethau a'n cysylltiadau rhyngwladol cryf i sefydlu system sganio gorwelion rhyngwladol ar gyfer materion sy'n ymwneud â COVID – gan ddarparu crynodebau o'r polisiâu diweddaraf a gwybodaeth am ddatblygiadau eraill ledled y byd. Mae eu gwaith arloesol wedi arwain at gael ailddynodiad am bedair blynedd arall, tan 2026, sy'n gwbl haeddiannol.

Mae'r ymateb hirdymor i bandemig COVID-19 yn galw am sicrhau bod brechlyn diogel ac effeithiol

ar gael i bawb y mae angen hwnnw arnyn nhw, ac mae ein Rhaglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu wedi bod yn ganolog i'r gwaith o roi cyngor a chymorth ar gyfer y rhaglen frechu yng Nghymru. At hynny, mae gwaith caled ein His-adran Ymchwil a Gwerthuso dros y flwyddyn ddiwethaf wedi arwain at gyfleoedd arwyddocaol, fel gwaith hollbwysig y Swyddfa Ymchwil a Datblygu yn helpu i ddarparu Treialon Clinigol ar gyfer Brechlynnau COVID-19 drwy Gymru, a'i hymateb a'i throsolwg strategol 'Un Cymru' ar gyfer pob treial COVID-19 a gynhaliwyd, a hynny mewn partneriaeth ag Ymchwil Gofal Iechyd Cymru.



Mae ein swyddogaethau corfforaethol a galluogi yn hollbwysig i gyflawni ein blaenoriaethau ym maes iechyd y cyhoedd ac i helpu ein sefydliad yn ehangach i adfer. Maen nhw wedi gwneud cyfraniad hollbwysig wrth arwain a chyflawni sawl maes gwaith gwahanol, ochr yn ochr â'n gwaith sy'n parhau i ymateb i COVID-19, gan helpu'r sefydliad wrth iddo barhau i symud tuag at adfer a chyflawni ein hystod lawn o swyddogaethau a gweithgareddau statudol.

Yn olaf, hoffwn ddiolch yn bersonol i bob un o'n pobl yn Iechyd Cyhoeddus Cymru am eu gwaith caled, dygn, ac am eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad i bobl Cymru. Mae hyn yn aml wedi golygu aberth personol er mwyn cyflawni ein gwaith ar y cyflymder a'r raddfa angenrheidiol. Hoffwn ddiolch i'n Bwrdd am eu holl gefnogaeth yn ystod y flwyddyn, ac yn enwedig i Jan Williams, ein cadeirydd, sydd wedi bod yn eithriadol wrth barhau i'm cefnogi yn bersonol ynghyd â chefnogi'r holl sefydliad. Ac wrth gwrs, diolch o galon i'r holl bartneriaid rydyn ni wedi gweithio gyda nhw yn ystod y flwyddyn i wneud gwahaniaeth.

Dr Tracey Cooper
Prif Weithredwr
Iechyd Cyhoeddus Cymru



CYFLWYNIAD

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bwrw ati mewn ffordd ddigynsail i ymateb i bandemig y Coronafeirws. Bu hyn yn rhan o ymdrech drwy'r system gyfan i ymateb yn effeithiol i'r heriau rydyn ni wedi'u hwynebu wrth i'r pandemig esblygu.



Drwy gydol y cyfnod hwn, rydyn ni wedi blaenoriaethu'r angen i ymateb yn effeithiol ym maes diogelu iechyd a microbioleg, gan fanteisio ar ein harbenigedd ym maes ymddygiad a newid, tystiolaeth ac ymchwil, gwaith atal, a gwaith i sganio'r gorwelion cenedlaethol a rhyngwladol. At hynny, rydyn ni wedi parhau i ddarparu ein rhaglenni sgrinio ar gyfer mamau a babanod drwy'r holl bandemig, gan gynnwys sgrinio clyw babanod, sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig a sgrinio cyn geni.

Rydyn ni hefyd wedi cydnabod, yn gynnar yn y broses, effaith y goblygiadau iechyd ehangach a mwy hirdymor ar bobl Cymru. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y pandemig wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli'n barod, ac wedi effeithio'n niweidiol ar ein cymunedau mwyaf difreintiedig mewn ffordd anghymesur. Rydyn ni hefyd yn gwybod bod yr effaith ar y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach wedi bod yn ddramatig, ac y bydd angen ymateb yr un mor effeithiol i fynd i'r afael â hyn dros y blynyddoedd nesaf.


Roedd 2020/21 yn flwyddyn eithriadol o heriol, gyda'r holl sefydliad yn canolbwyntio ar arwain systemau wrth ymateb i bandemig COVID-19 a rhoi cyngor yn ei gylch. Wrth inni symud i 2021/2022, ni thawelodd pethau, ac mewn rhai ffyrdd, cynyddu wnaeth yr her wrth inni'n raddol ddechrau symud a dychwelyd staff yn ôl i'w swyddi craidd er mwyn ailddechrau gweithio ar ein swyddogaethau

iechyd cyhoeddus craidd a statudol. Ar yr un pryd, parhawyd i ganolbwyntio ar esblygu ein hymateb ym maes diogelu iechyd i greu model ymateb mwy cynaliadwy a fydd yn addas i'w ddiben y tu hwnt i COVID-19. Bu cynnydd cysylltiedig mewn recriwtio staff er mwyn helpu gyda'r ymateb ym maes diogelu iechyd ar ôl i'r Gweinidog gymeradwyo'r achos busnes dros hynny yn ystod 2020/2021.

Er inni barhau i ganolbwyntio ar sicrhau ein bod yn ymateb yn effeithiol ac yn gynaliadwy i COVID-19, roedden ni hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gweithio ar y goblygiadau iechyd ehangach i bobl Cymru. Mae'n hollbwysig ein bod yn deall yn iawn effeithiau ehangach COVID-19 (yn gadarnhaol ac yn negyddol), gan gynnwys yr effeithiau ar grwpiau sy'n agored i niwed a'r effeithiau sy'n ymwneud ag anghydraddoldebau iechyd. Mae angen dysgu sut i atal y rhain yn y dyfodol.




EIN CYNLLUN GWEITHREDOL 2021/2022



Yn gynnar yn 2021, cafodd ein Cynllun Gweithredol ei ddiweddaru er mwyn sicrhau ei fod yn mynegi'n glir y camau roedden ni'n bwriadu'u cymryd i roi ar waith y blaenoriaethau y cytunwyd arnyn nhw. Fel rhan o'r broses hon, cafodd ein blaenoriaethau presennol eu dilysu a'r cerrig milltir sy'n sail iddyn nhw eu diweddaru er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r gwerth mwyaf posibl am arian yn rhinwedd ein gwaith fel Sefydliad Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru.

Yn ein tywys yn hyn o beth roedd ein strategaeth hirdymor, 'Gweithio i Wireddu Dyfodol Iachach i Gymru' a nifer o sbardunau strategol o bwys sy'n canolbwyntio ar waith atal, yn benodol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol sydd i'w

chyflwyno cyn hir. Rhoddodd nifer o sbardunau polisi a sbardunau strategol ffurf a sail i'r broses o ddatblygu ein blaenoriaethau yn 2021-2022, gan gynnwys deddfwriaeth bwysig, lliniaru'r 'pedwar niwed' sy'n deillio o COVID-19, a chyflawni blaenoriaethau Gweinidogion.



Mae ein cynllun gweithredol yn adlewyrchu'r uchelgeisiau a geir yn Cymru Iachach (2018), ac mae'n ceisio helpu i ddatblygu dull o weithio drwy'r system gyfan, a hwnnw'n canolbwyntio ar iechyd a lles ac ar atal salwch.




Roedd ein cynllun yn rhoi ystyriaeth i'r pedwar niwed a'r blaenoriaethau a bennwyd ar gyfer GIG Cymru gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus, fel y gwelir yn y diagram isod:

Cyflawni'r Prif Sbardunau Strategol

Y Pedwar Niwed



Blaenoriaethau Allanol Iechyd Cyhoeddus Cymru



Blaenoriaethau Gweinidogion




Roedd ein pwyslais pennaf yn ystod y flwyddyn ar waith atal, cynaliadwyedd a datblygu iechyd a gwydnwch ein cymunedau. Gan weithio gyda'n partneriaid i gryfhau penderfyniadau ehangach disgwyliad oes iach, ein nod oedd dylanwadu ar ymddygiad iach drwy raglenni wedi'u targedu ym maes iechyd y cyhoedd. Fe wnaethon ni hefyd barhau i ailgychwyn a datblygu ein rhaglenni sgrinio.

Ym mis Mehefin 2021, cytunodd y Bwrdd ar ein meysydd blaenoriaeth yn 2021/2022, sef:



Cynllun Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru 2021/22

Cynllun ar Dudalen



Dysgu sefydliadol, gwybodaeth, a naratif COVID-19

- Datblygu dulliau systemig o casglu gwersi i'w dysgu
- Datblygu naratif COVID-19 ar gyfer ein sefydliad

Yr Ymateb ym maes Diogelu Iechyd i COVID-19

- Arweinyddiaeth a chynghor arbenigol am ddulliau gweithio ym maes iechyd y cyhoedd
- Cydlynw olrhain cysylltiadau
- Cynghor am samplu a phrofi
- Dadansoddi profion mewn labordai




Canlyniadau i Iechyd y Boblogaeth

- Datblygu dulliau gweithio i atal niwed ehangach o COVID-19
- Edrych ar bobl sy'n agored i niwed, lles a chyflogaeth




Ailgychwyn ein Swyddogaethau, ein Rhaglenni a'n Gwasanaethau ym maes Iechyd y Cyhoedd

- Datblygu dulliau a meini prawf i reoli a rhoi sail i'r broses ailgychwyn
- Cynllunio ailgychwyn gwasanaethau, rhaglenni a swyddogaethau hanfodol a'r rheini sy'n flaenoriaeth



Galluogi Adfer

- Adolygiad strategol o'n strategaeth hirdymor ac ymgysylltu ynghylch ffyrdd o weithio yn y dyfodol
- Defnyddio gwybodaeth i wneud penderfyniadau effeithiol a gwella perfformiad
- Creu a darparu atebion digidol a chyfathrebu'n effeithiol



Ein pwyslais yn 2021/22 yn unol â'r Cynllun Gweithredu oedd:

- ✓ Parhau i ddarparu ac esblygu ymateb effeithiol a chynaliadwy i COVID-19 ym maes diogelu iechyd
- ✓ Deall yr effeithiau ehangach ar iechyd y boblogaeth, a chynghori ynghylch sut i liniaru'r rhain
- ✓ Ailgychwyn ein swyddogaethau, ein rhaglenni a'n gwasanaethau sy'n flaenoriaeth ym maes iechyd y cyhoedd
- ✓ Canfod, rhannu a datblygu gwersi i'w dysgu, gwybodaeth, a naratif COVID-19 y sefydliad
- ✓ Ein galluogi i adfer yn effeithiol fel sefydliad

EIN CYNNYDD O DAN EIN CYNLLUN GWEITHREDOL 2021/22



Ddiwedd mis Mawrth 2021, daeth ein Cynllun Gweithredol ar gyfer 2021/22 i ben, a honno'n flwyddyn lwyddiannus tu hwnt wrth inni gyrraedd nifer o gerrig milltir arwyddocaol yn ein meysydd blaenoriaeth.

O blith y pethau roedden ni wedi gobeithio'u cyflawni, daeth y flwyddyn i ben gydag 87% o'n cerrig milltir wedi'u cwblhau, a'r gweddill bellach i'w cyflawni yn 2022/23 fel rhan o'r Cynllun Integredig Tymor Canolig, ar ôl gwneud newidiadau dilynol i'n dull o gyflawni.



Daeth ein maes blaenoriaeth

Ailgychwyn swyddogaethau, rhaglenni a gwasanaethau allweddol – i ben yn ffurfiol ym mis Hydref 2021 ar ôl i'n Tîm Gweithredol gymeradwyo hynny yn dilyn dychwelyd i'r system normal o ran atebolrwydd y Cyfarwyddiaethau.

Mae manylion y gwaith a gafodd ei gyflawni ym mhob maes blaenoriaeth i'w weld isod, gyda rhagor o fanylion yn rhoi enghreifftiau o'r hyn y gwnaethon ni ei gyflawni yn 2021/22 yn yr adran sy'n dilyn.



100%
Ymateb



76%
Iechyd y
Boblogaeth



100%
Dysgu yn y
Sefydliad



73%
Galluogi Adfer



YR YMATEB I COVID-19 YM MAES DIOGELU IECHYD



Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bwrw ati mewn ffordd ddigynsail i ymateb i bandemig y Coronafeirws. Bu hyn yn rhan o ymdrech drwy'r system gyfan i ymateb yn effeithiol i'r heriau rydyn ni wedi'u hwynebu wrth i'r pandemig esblygu. Drwy gydol y cyfnod hwn, rydyn ni wedi blaenoriaethu'r angen i ddarparu ymateb effeithiol ym maes diogelu iechyd a microbioleg.

Mae'r Tîm Diogelu Iechyd wedi gwneud gwaith arbenigol, ar sail 'unwaith i Gymru', yn system iechyd y cyhoedd. Mae hyn wedi cynnwys arwain y gwaith o ddatblygu'r fframwaith olrhain cysylltiadau cenedlaethol; darparu adnoddau cenedlaethol o bwys gan gynnwys canllawiau Profi, Olrhain, Diogelu; cyflwyno Trefniadau Gweithredu Safonol; a chreu sgriptiau olrhain cysylltiadau, protocolau a deunyddiau cymorth eraill ar gyfer timau olrhain cysylltiadau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi. Mae ein tîm arbenigol wedi parhau i roi ymateb aciwt i'r achosion, y brigadau o achosion a'r digwyddiadau COVID-19 cymhlethaf, ynghyd â darparu canolfan gyswllt genedlaethol i'r rheini y mae angen cyngor brys am COVID-19 arnyn nhw. Mae'r tîm hefyd wedi rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru i'w helpu i reoli'r pandemig yn strategol.

Grŵp bychan o arbenigwyr sydd wedi arwain y gwasanaeth hwn, a hwythau'n gweithio oriau estynedig y tu hwnt i'r hyn sy'n arferol yn eu contractau, gan gael cymorth nifer sylweddol o staff a symudwyd o bob rhan o'r sefydliad er mwyn ateb anghenion digynsail y system.

Gwnaed hyn ochr yn ochr â'r ymateb arbenigol aciwt a roddwyd i hysbysiadau, brigadau o achosion a digwyddiadau eraill ym maes iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â chlefydau heintus sy'n flaenoriaeth, a hwnnw'n ymateb parhaus a di-dor.

Er gwaethaf y pwysau wrth ymateb i COVID-19, er mwyn gwella sefydlogrwydd, gwydnwch a chapasiti'r tîm Diogelu Iechyd, cyflwynwyd achos busnes i Lywodraeth Cymru, a gafodd ei gymeradwyo, gan arwain at recriwtio tua 126 aelod o staff a gafodd eu cyfnodau cynefino a sefydlu yn y gwasanaeth.

Y flwyddyn nesaf, bydd y tîm yn parhau i ganolbwyntio ar sefydlu a datblygu'r staff newydd, gan drawsnewid y timau a'r swyddogaethau i greu gwasanaeth mwy gwydn a sefydlog. Byddwn hefyd yn gweithio i ddod â'r ymateb i COVID-19 yn rhan o fusnes normal y sefydliad, gan ganfod gwersi i'w dysgu a all greu cyfleoedd i wella mewn meysydd Adnoddau Dynol ehangach fel datblygiadau digidol, adroddiadau Ansawdd a Dangosyddion Perfformiad Allweddol, a gwaith i roi cymorth i grwpiau sy'n agored i niwed. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid pwysig (yn benodol, gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd Awdurdodau Lleol) er mwyn cryfhau'r system diogelu iechyd a'r gweithlu amlddisgyblaethol ymhellach.


Yn ystod 2021/22, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cadeirio a chefnogi Grŵp Trosolwg Diogelu Iechyd y Pedair Gwlad, sy'n cydlynu'r broses o gydweithio ar fygythiadau trawsffiniol i iechyd yng ngwledydd datganoledig y Deyrnas Unedig.



Cadw gwyliadwriaeth ar y boblogaeth

Mae'r angen am ddata ym maes cadw gwyliadwriaeth ac epidemioleg er mwyn helpu gyda phandemig COVID-19 hyd yma wedi bod y tu hwnt i ddim a brofwyd o'r blaen. Mae ein Canolfan Wylidwriaeth ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy hefyd wedi parhau i gynnal cynlluniau cadw gwyliadwriaeth hanfodol eraill, gan ailflaenoriaethu, lleihau neu ehangu'r cynlluniau hynny yn ôl y galw, a thargedu adnoddau dadansodol.

Mae staff y Ganolfan wedi arwain y gwaith o ddatblygu a chyflwyno systemau cadw gwyliadwriaeth newydd, ac hefyd wedi gwneud cyfraniad allweddol wrth ddatblygu gweithdrefnau a systemau i helpu gydag amryw o ymatebion i COVID-19. Yn eu plith mae gwaith sydyn i gadw gwyliadwriaeth ar farwolaethau mewn ysbytai; systemau data i olrhain cysylltiadau; datblygu Tarian (y system fewnol ar gyfer rheoli achosion o glefydau trosglwyddadwy); astudiaethau o blasma ymadferol a serowyliadwriaeth; cadw gwyliadwriaeth ar amrywiolion a mwtaniadau sy'n achosi pryder; a chefnogi treial brechlyn COVID-19.



Staff Iechyd Cyhoeddus Cymru'n rhoi cyflwyniad mewn symposiwm epidemioleg Ewropeaidd

Cafodd cydweithwyr o'r Is-adran Diogelu Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru eu cynrychioli yn y Gynhadledd Wyddonol Ewropeaidd ar Epidemioleg Gymhwysol Clefydau Heintus (ESCAIDE).

Cyflwynodd Gemma Hobson boster yn edrych ar sut roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ymchwilio i frigiad o achosion o salmonela a welwyd yn gynharach yn y de, yn dilyn barbeciw.

Cyflwynodd Clare Sawyer ddau boster. Roedd y cyntaf yn edrych ar y defnydd o fiobroffion atgyrch PCR i fonitro amrywiolion sy'n peri pryder mewn lleoliadau caeedig yng Nghymru. Roedd yr ail yn edrych ar dueddiadau mewn e-coli a gaiff ei fonitro ledled Cymru ar ôl cyflwyno profion PCR aml-ddadansoddiad.

Cyflwynodd Gethin Jones boster yn cyflwyno system cadw gwyliadwriaeth wedi'i theilwra i fonitro heintiau Coronafeirws mewn carchardai drwy Gymru.

Cyflwynodd James Adamson boster yn edrych ar sut roedden ni'n defnyddio mapio integredig, dilyniannodi genomau a chyfweliadau i ganfod ffynonellau haint ac i gyflwyno camau rheoli haint mewn carchar yn ystod brigiad o achosion o'r Coronafeirws.

Treialon Brechlyn COVID-19

Dan arweiniad y Swyddfa Ymchwil a Datblygu, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn allweddol wrth helpu gyda'r gwaith o gynnal Treialon Clinigol ar gyfer Brechlyn COVID-19 ledled Cymru, ac mae'n darparu ymateb 'Un Cymru' ac yn cyflawni rôl oruchwylio strategol drwy Gymru ar gyfer yr holl dreialon COVID-19 sy'n cael eu cynnal, a hynny mewn partneriaeth ag Ymchwil Gofal Iechyd Cymru.

Ym mis Rhagfyr 2021, bu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl yn goruchwyllo treial clinigol i brofi triniaethau gwrthfeiol newydd ar gyfer COVID-19 mewn lleoliadau cymunedol i oedolion sydd wedi cael COVID-19 yn ddiweddar a'r rheini sy'n wynebu risg uwch o gymhlethdodau (gweler y wybodaeth am y Treial PANORAMIC). Nod PANORAMIC yw bod yn 'dreial platfform clinigol', sy'n golygu y gall werthuso nifer o driniaethau gwrthfeiol dros gyfnod o amser. Y driniaeth gyntaf i gael ei hastudio drwy'r treial yw Molnupiravir, pilsen wrthfeiol ar gyfer COVID-19 sydd eisoes wedi'i thrwyddedu gan yr MHRA (yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd).

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymddangos mewn nifer o ddeunyddiau cyfathrebu a ryddhawyd wrth gyflawni treial PANORAMIC yn llwyddiannus, gan gynnwys erthygl ddiweddar gan BBC Wales (13 Ionawr 2022); [Covid: Hundreds in Wales take antiviral tablets - BBC News](#).

Cafodd dull 'Un Cymru' Iechyd Cyhoeddus Cymru o weithio ar dreialon brechlynnau COVID-19 ei ehangu i gynnwys y treial PANORMAIC, a edrychai ar driniaethau gwrthfeiol ac a ddechreuodd ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r model ar gyfer astudiaeth PANORMAIC yn wahanol i'r un a ddefnyddir ar gyfer treialon brechlynnau COVID-19.



Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gydag Ymchwil Gofal Iechyd Cymru a'r Ganolfan Treialon Ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd i ddarparu 'Hwb' ar gyfer y treial. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn safle ymchwilio ac mae ganddo contract uniongyrchol â'r noddwr, Prifysgol Rhydychen. I ddarparu'r treial, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi rhoi contractau mygedol i chwech Ymarferydd Cyffredinol ledled Cymru, ac mae Cytundebau Lefel Gwasanaeth wedi'u creu â Meddygfa yn y gogledd. Bydd tîm Gwybodeg Iechyd Cyhoeddus Cymru'n rhoi canlyniadau profion PCR ac LFT i dîm cofnodi canolog Ymchwil Gofal Iechyd Cymru. Mae'r model hwn wedi bod yn llwyddiannus, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yw safle recriwtio gorau'r treial gyda dros 1,025 o gyfranogwyr wedi'u recriwtio (sy'n 13% o'r holl bobl a recriwtiwyd i'r Treial).




Profion COVID-19

Mae'r ymateb eithriadol i bandemig COVID-19 wedi dangos cryfderau ac anghenion datblygu ein gwasanaethau. Yn ystod ein hymateb, mae ein gwasanaethau feiroleg/microbioleg wedi dangos eu gallu i ddatblygu profion newydd i helpu gyda'r ymateb i bathogenau ac amrywiolion newydd. Maen nhw hefyd wedi ymateb i gynnydd aruthrol yn nifer y profion, ac wedi cyflwyno technoleg newydd i labordai lechyd Cyhoeddus Cymru.

Cynyddodd cyfanswm y profion PCR a awdurdodwyd gan labordai lechyd Cyhoeddus Cymru o tua 20,000 prawf yr wythnos ym mis Ebrill 2021 i dros 30,000 ym mis Medi 2021. Yn ystod y cyfnod hwn, canolrif yr amser cwblhau yn labordai lechyd Cyhoeddus Cymru oedd 5 awr.

Uned Genomeg Pathogenau Iechyd Cyhoeddus Cymru



Mae Uned Genomeg Pathogenau Iechyd Cyhoeddus Cymru (PenGU) wedi gwneud cyfraniad eithriadol a hanfodol wrth helpu gyda'r ymateb i COVID-19. Mae'r uned ar flaen y gad yn fyd-eang wrth greu a rhannu data dilyniannodi i helpu gyda'r ymateb i bandemig COVID-19, gan gynnwys cadw gwyliadwriaeth yn sail i gamau gweithredu amserol ym maes iechyd y cyhoedd, ac ymateb i frigiadau o achosion yn y gymuned ac mewn lleoliadau caeedig, fel cartrefi gofal ac ysbytai.

Mae genomeg pathogenau yn faes sydd wedi tyfu'n sylweddol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru dros y 12-18 mis diwethaf, fel y gwelwyd yn sgil cyfraniad genomeg at yr ymateb i bandemig COVID-19. Mae data sydd wedi'u cynhyrchu gan Uned Genomeg Pathogenau Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael eu defnyddio fel rhan o'r ymateb i'r pandemig ar bob lefel; o reoli cleifion unigol a helpu i olrhain cysylltiadau i ddarparu gwybodaeth am y pandemig drwy Gymru gyfan i gynghori a chynorthwyo'r rheini sy'n llunio polisi.

Yn ystod y pandemig, mae Cymru wedi ennill ei phlwyf fel gwlad sydd ar flaen y gad yn fyd-eang ym maes genomeg pathogenau clinigol, ac mae'r rhagoriaeth hon yn golygu bod cleifion a'r cyhoedd yng Nghymru ar eu hennill. Mae Uned Genomeg Pathogenau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu cyfres o wasanaethau genomeg pathogenau clinigol o'r radd flaenaf, ac ym mis Mawrth 2020, dechreuodd wneud gwaith i ddilyniannodi achosion o SARS-CoV-2. Ers hynny, mae Uned Genomeg Pathogenau Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gwneud cyfraniad allweddol at ymateb Cymru a'r Deyrnas Unedig yn ehangach i bandemig

COVID-19, a hithau bellach wedi dilyniannodi dros 100,000 o genomau SARS-CoV-2.

Ers dechrau dilyniannodi SARS-CoV-2 ym mis Mawrth 2020, mae PenGU wedi prosesu dros 150,000 o samplau SARS-CoV-2, gan gynnwys samplau gan bobl o'r tu allan i Gymru i helpu gyda'r ymateb ledled y Deyrnas Unedig. Yn fyd-eang, mae Cymru ymhlith y deg gwlad sydd wedi cyflwyno'r mwyaf o genomau i GISAID, a dim ond Denmarc sydd wedi dilyniannodi mwy o samplau a chanfod canran uwch o achosion. Mae PenGU yn darparu gwasanaeth dadansoddi brigiadau o achosion, sydd wedi helpu gyda dros 100 o ymchwiliadau i frigiadau o achosion hyd yma. Mae data genomeg yn cael eu rhannu â'n rhwydwaith o epidemiolegwyr gofal iechyd yng Nghymru, er mwyn helpu gyda'r ymateb i'r pandemig yn ein byrddau iechyd. Mae data hefyd yn cael eu rhannu â Llywodraeth Cymru ac yn cael eu dadansoddi mewn ffordd chwim er mwyn helpu i greu polisi. Mae'r data dilyniannodi a gaiff eu creu yn cael eu cyhoeddi er mwyn galluogi a helpu gyda gwaith ymchwil yng Nghymru ac yn fyd-eang. Ochr yn ochr â helpu gyda'r ymateb i COVID-19, mae PenGU wedi parhau i ddarparu'i wasanaethau presennol, yn ogystal â sefydlu gwasanaeth genomeg *Clostridium difficile* sydd ar flaen y gad yn fyd-eang. Dyma'r unig wasanaeth genomeg *Clostridium difficile* yn y Deyrnas Unedig sydd wedi'i achredu gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS) hyd yma.

Mae'r defnydd o ddata genomeg SARS-CoV-2 drwy'r system gyfan yn dangos gwerth genomeg, nid yn unig i alluogi meddyginiaeth fanwl, ond hefyd ofal iechyd manwl. Mae'r ymateb i COVID-19 – ynghyd â'r gwasanaethau presennol sydd wedi'u hachredu gan UKAS ar gyfer pathogenau eraill, fel HIV, *Clostridium difficile*, y fflw a

Mycobacteria – yn dystiolaeth bellach o'r gallu eithriadol sydd yng Nghymru.

Mae sicrhau manteision o ddata genomeg yn gofyn am gyfraniad gan staff o bob rhan o'r sefydliad: Diogelu Iechyd, Microbioleg, Technoleg Gwybodaeth, Ymchwil ac Arloesi, a Llywodraethu Gwybodaeth a Chyfathrebu, ymhlith eraill. O gyfuno hyn â'r twf posibl yn y gwasanaethau genomeg a ddarperir, mae'n gofyn am esblygu Genomeg Pathogenau yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhaglen ar gyfer Genomeg Iechyd Cyhoeddus.



Gan ddatblygu ar sylfaen sydd eisoes yn gryf yn sgil tîm genomeg hynod o dalentog ac ymroddedig

Bydd sefydlu Rhaglen Genomeg Iechyd Cyhoeddus yn creu cyfleoedd newydd i ddatblygu gwasanaethau a chydweithio â phartneriaid, gan ddatblygu ar y cysylltiadau presennol drwy Bartneriaeth Genomeg Cymru. Bydd yn cryfhau'r modd y mae'r gwasanaeth genomeg pathogenau'n cael ei ddarparu ar gyfer amrywiaeth o heintiau, yn gyfle i edrych ar sut i weithio'n agosach gyda Gwasanaeth Genomeg Glinigol Cymru Gyfan drwy eu cyd-leoli yng Nghaerdydd, ac yn fodd o greu map ar gyfer datblygu a rheoli'r gwaith hwn ymhellach.

Mae'r cyfleoedd yn y dyfodol yn cynnwys datblygu gwasanaethau newydd wedi'u seilio ar feysydd rhagoriaeth presennol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel *Cryptosporidium* a *Mycoleg*, cefnogi gweithgareddau iechyd ehangach yn y boblogaeth gan gynnwys ystyried y lletywyr a'r amgylchedd ochr yn ochr â phathogenau fel rhan o ddull UN Iechyd o weithio, a chanfod defnyddioldeb data dilyniannodi'r genomeg dynol i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o wasanaethau sgrinio'r boblogaeth.

Mae perfformiad Uned Genomeg Pathogenau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhyfeddol ac ystyried mai uned fechan yw hon (llai na 15 aelod parhaol o staff) a maint y gwaith dilyniannodi mae'n ei wneud. Un mesuriad sy'n dangos perfformiad Uned Genomeg Pathogenau Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r ffaith bod Cymru, yn ystod pandemig COVID-19, wedi bod yn gyson ymhlith gwledydd uchaf y byd am gyfanswm nifer y genomau SARS-CoV-2 a ddilyniannodwyd ac hefyd am gyfran yr achosion a ddilyniannodwyd.

Mae gan genomeg botensial aruthrol. Gan ddatblygu ar sylfaen sydd eisoes yn gryf yn sgil tîm genomeg hynod o dalentog ac ymroddedig, bydd esblygu'r gwaith genomeg drwy greu Rhaglen Genomeg Iechyd Cyhoeddus yn hwb pellach ac yn fodd o ddatblygu genomeg yn y sefydliad, a bydd hefyd yn helpu i droi potensial genomeg yn fanteision go iawn i bobl Cymru.

CANLYNIADAU YM MAES IECHYD Y BOBLOGAETH



Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith aruthrol ar bobl ledled y byd, yn ogystal ag yng Nghymru. Mae'r feirws a chamau i'w reoli wedi achosi niwed eang, gan effeithio ar iechyd a lles pobl, ynghyd ag achosi effeithiau cymdeithasol ac economaidd negyddol sylweddol. Mae wedi gwaethygu anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli'n barod, ac wedi effeithio ar rai grwpiau, fel pobl sydd ag incwm isel a chymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yn fwy nag eraill.



Yn 2021-22, fe wnaethon ni gyflwyno rhaglen o waith i ddeall effeithiau ehangach COVID-19, gan gynnwys goblygiadau ein camau gweithredu i reoli sut roedd yn cael ei drosglwyddo. Nod y wybodaeth hon oedd helpu gyda phenderfyniadau polisi ac ymdrechion ledled y sefydliad a gwasanaethau iechyd ehangach, rhoi sail i ymdrechion traws-sector amlddisgyblaethol i rwystro niwed i iechyd pobl yn y dyfodol, ynghyd â helpu'r broses adfer a hybu cyfleoedd i gyfrannu at barhau i wella iechyd a lleihau anghydraddoldeb.

Drwy waith monitro i ddeall tueddiadau iechyd ehangach yn y maes iechyd, ynghyd â dysgu drwy sianeli amrywiol, fe wnaethon ni ganolbwyntio ar y pedwar maes gwybodaeth canlynol.



✓ **Blaenoriaeth 1**

Arolwg Ymgysylltu Cyhoeddus Cenedlaethol i ddeall i ba raddau roedd y cyhoedd yn derbyn pethau, effeithiau ehangach camau sy'n ymwneud â COVID-19 ledled Cymru ac mewn grwpiau penodol o bobl, a sut y mae pobl yn glynu wrth y cyngor.

✓ **Blaenoriaeth 2**

Sganio Gorwelion Rhyngwladol drwy ymchwilio, gwerthuso a dadansoddi'r dystiolaeth ryngwladol i helpu i lywio polisi a chefnogi ymateb parhaus Cymru i bandemig COVID-19. Mae hyn wedi helpu i greu cysylltiadau cryf â phartneriaid ac asiantaethau rhyngwladol, er mwyn datblygu gwybodaeth a dysgu gan wledydd eraill.

✓ **Blaenoriaeth 3**

Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yn gysylltiedig â COVID-19 er mwyn annog dull o weithio drwy'r 'llywodraeth gyfan' a thrwy'r 'gymdeithas gyfan' wrth gynllunio ac adfer ar ôl y pandemig, ynghyd ag ymyriadau i helpu gyda'r adferiad hwnnw. Yn benodol, deilliodd tri Asesiad o'r Effaith ar Iechyd o hyn:

- Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn gysylltiedig â'r 'Polisi Aros Gartref a Chadw Pellter Cymdeithasol' yng Nghymru wrth ymateb i bandemig COVID-19
- Asesiad o COVID-19 – byd y pandemig a'r tu hwnt: Effaith gweithio gartref a gweithio ystwyth yng Nghymru ar iechyd y cyhoedd
- Does unman yn debyg i gartref? Archwilio effaith iechyd a llesiant COVID-19 ar dai heb ddiogelwch.

Blaenoriaeth 4

Datblygu adroddiad am dueddiadau iechyd ehangach mewn iechyd a lles.




Rhoddodd hyn sail i'r rhaglen waith yn 2021-22 i wella canlyniadau iechyd i'r boblogaeth drwy ganolbwyntio ar bedwar prif faes: lles meddyliol; plant a phobl ifanc; cyflogaeth; a sbardunau clefydau anhrosglwyddadwy.

Sganio Gorwelion Rhyngwladol

Mae'r WHOCC wedi defnyddio ein partneriaethau a'n cysylltiadau rhyngwladol cryf i sefydlu system sganio gorwelion rhyngwladol (**['Sganio Gorwelion Rhyngwladol'](#)**) ar gyfer materion sy'n ymwneud â COVID – gan ddarparu crynodebau o'r polisïau diweddaraf a gwybodaeth am ddatblygiadau eraill ledled y byd. Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda Swyddfa Ranbarthol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Ewrop, gan glywed yn syth am y gwersi byd-eang ac Ewropeaidd diweddaraf i'w dysgu am effeithiau ehangach COVID-19 ar iechyd a lles pobl, tegwch, gwydnwch cymunedol, gwydnwch systemau, cymdeithas a'r economi.

Mae'r WHOCC wedi bod yn canolbwyntio ar alluogi a rhoi sylfaen i weithredu ac atebion sy'n rhoi lle canolog i degwch iechyd yn yr ymateb cynaliadwy i COVID-19 a'r broses adfer (**[Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru](#)**). Mae hefyd wedi sefydlu cynllun tegwch iechyd o'r radd flaenaf (**[cynllun Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru \(WHESRI\)](#)**) gan gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru. I hwyluso a rhoi sail i adferiad mwy cynaliadwy a chynhwysol, mae'r WHOCC hefyd yn edrych ar oblygiadau economaidd y pandemig, ac ar gostau ariannol anghydraddoldeb iechyd i'r GIG yng Nghymru (**[Cost sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb wrth ddefnyddio gwasanaeth ysbyty](#)**).

Mae ein Tîm Iechyd Rhyngwladol, drwy'r Ganolfan Cydlynu Iechyd Rhyngwladol (IHCC), wedi bod yn helpu i ledaenu a defnyddio gwersi a phrofiadau rhyngwladol drwy'r GIG a thrwy Gymru yn ehangach, a hynny o amryw o rwydweithiau a sefydliadau Ewropeaidd a byd-eang, a thrwy gydweithio â'r pum cenedl. Mae'r systemau a'r rhwydweithiau rhyngwladol hyn eisoes wedi sicrhau bod gwersi rhyngwladol yn rhoi sail reolaidd i'n ffyrdd o feddwl ac i'n hymatebion, a bydd hynny'n parhau wrth inni reoli effeithiau ehangach COVID-19 ar iechyd y cyhoedd drwy'r cyfnod pontio a'r cyfnod adfer. Law yn llaw â'r trydydd sector, partneriaid academiaidd a phartneriaid yn y byd addysg, mae'r IHCC wedi lansio'r adnodd hyfforddiant cyntaf fel rhan o gynllun Dinasyddiaeth Fyd-eang Cymru (Learning@Wales) ar gyfer staff y GIG, er mwyn helpu i greu diwylliant sy'n arddel cyfrifoldeb byd-eang, gwaith mewn partneriaeth ac ymddygiad cynaliadwy yng nghyd-destun globaleiddio, newid hinsawdd, pandemigau, heddwch a gwrthdaro.



Fe wnaethon ni hefyd barhau i roi pwyslais ar gynaliadwyedd, er enghraifft drwy gyhoeddi ffeithluniau o ganfyddiadau cynnar Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn gysylltiedig â newid hinsawdd yng Nghymru, a thrwy feithrin ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd amgylcheddol ymhlith ein staff drwy e-friffiau, rhwydwaith y staff a hyfforddiant ym maes llythrennedd carbon.

Arolwg Cenedlaethol i Ymgysylltu â'r Cyhoedd



Yn ystod pandemig COVID-19, mae Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (WHO CC) wedi cynnal arolwg cenedlaethol dros y ffôn i ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch iechyd a lles pobl. A hwnnw wedi'i sefydlu ym mis Ebrill 2020, yn fuan ar ôl dechrau 'cyfnod clo' cyntaf Cymru, mae'r arolwg wedi ymwneud â dros 26,000 o oedolion yng Nghymru yn ei ddwy flynedd gyntaf.




Mae canlyniadau'r arolwg wedi ein helpu i ddeall i ba raddau y mae'r cyhoedd yn derbyn ac yn cydymffurfio â chamau i atal COVID-19, ynghyd â deall effeithiau ehangach y pandemig ar iechyd corfforol a meddyliol, gan gynnwys sut y mae wedi effeithio'n wahanol ar wahanol grwpiau o'r boblogaeth. Mae'r arolwg wedi cynnwys cyfres o gwestiynau cyson ynghyd â chwestiynau eraill sy'n newid yn dibynnu ar y materion sy'n dod i'r amlwg ar y pryd; mae'n golygu bod modd ymgysylltu â'r cyhoedd mewn ffordd sy'n ymateb yn y fan a'r lle i'r cyd-destun polisi ar y pryd, drwy gynnwys cwestiynau am flaenoriaethau polisi, profion COVID-19 a brechlynnau, er enghraifft.

Mae canlyniadau'r arolwg wedi'u lledaenu'n eang, gan roi sail i benderfyniadau strategol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill o bwys, a helpu wrth symud o ymateb i'r pandemig i'r cyfnod adfer. Mae'r canfyddiadau ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar wefan iechyd y cyhoedd ac ar [gronfa ddata'r WHO CC](#).

Roedd adroddiad arolwg mis Mawrth 2022 yn cyflwyno canfyddiadau rownd olaf yr arolwg ymgysylltu yn ei fformat presennol. Dilynir hyn gan adroddiad crynhoi yn 2022/23 a fydd yn cyflwyno'r data a'r tueddiadau yn ystod dwy flynedd yr arolwg. Gan ddatblygu ar lwyddiant yr arolwg, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sefydlu panel lles cenedlaethol i barhau i fonitro materion o bwys ym maes iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

PARHAU AC AILGYCHWYN EIN SWYDDOGAETHAU, EIN RHAGLENNI A'N GWASANAETHAU YM MAES IECHYD Y CYHOEDD



Brechus ac imiwneiddio

Fel rhan o'r rhaglen fflw flynyddol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y gorffennol wedi bod yn gyfrifol am gynnal ymgyrch fflw flynyddol. Mae hon wedi'i chynnal dros sawl blwyddyn bellach o dan y brand 'Curwch Fflw'. Mae'r ymgyrch hon yn y cyfryngau yn cael ei chynnal rhwng mis Hydref a mis Mawrth, ac mae'n cynnwys pwyslais dwys am chwech wythnos ar hyrwyddo'r brechlyn, a hynny ar y teledu a'r radio ac mewn deunyddiau ar-lein. Ceir cyfnod diweddarach lle canolbwyntir ar gamau atal (e.e. Ei ddal, ei daflu, ei ddifa).

Fel y disgwyliwyd, roedd COVID-19 a'r fflw yn cylchredeg y gaeaf hwn, ac er mwyn gallu gweithio'n fwy effeithiol a rhoi gwybodaeth gyhoeddus mewn ffordd fwy cydlynol, mae'r gwaith cynllunio wedi golygu rhoi sylw i raglenni brechu'r ddau feirws anadlol mewn un ymgyrch, gyhyd ag y bo modd. Amcan cyffredinol yr ymgyrch hon oedd diogelu iechyd pobl Cymru drwy leihau effaith y fflw a COVID-19. Roedd yn ceisio gwneud hyn drwy dargedu elfennau niferus, gan gynnwys drwy ddangos peryglon fflw a COVID-19, ac annog unigolion cymwys i gael eu brechu.

Yn 2021/22, mae'r ymgyrch arferol ar gyfer fflw tymhorol wedi dod o dan fantell yr ymgyrch 'Mae Brechlynnau'n Arbed Bywydau', er mwyn sicrhau

cysondeb â rhaglenni brechu eraill ac i fanteisio ar ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r brand hwn yn sgil COVID-19. Cynhaliwyd hon fel ymgyrch anadlol ar y cyd a roddai sylw i frechlynnau fflw a COVID-19 yn yr hydref a'r gaeaf. Thema fras ymgyrch eleni oedd 'cadwch eich bywydau'n agored', gan ddangos sut y gall brechlynnau eich helpu i wneud y pethau rydych chi'n mwynhau eu gwneud drwy eich cadw'n iach yn y gaeaf.

Gan fod y brechlynnau i gyd yn cael eu hyrwyddo o dan yr un hunaniaeth brand yng Nghymru, mae'n bwysig cael strategaeth gyffredinol ar gyfer cydlynu'r gwahanol elfennau o dan y brand, ac i flaenoriaethu buddsoddiad.



Cafodd y strategaeth arfaethedig a oedd wedi'i chydlynu ar gyfer 21/22 ei lansio'n llwyddiannus ar 28 Medi 2021, ac roedd iddi dair amcan glir:

- ✓ Sicrhau bod cynifer o frechlynnau COVID-19 a ffliw ar gael â phosibl, a bod pobl Cymru yn ymwybodol o'r brechlyn ac yn derbyn bod angen hwnnw, gyda'r nod o sicrhau bod y nifer mwyaf posibl yn dewis ei gael.
- ✓ Lleihau anghydraddoldeb o ran y nifer sy'n dewis cael brechlynnau COVID-19 a ffliw drwy waith ymgysylltu cyhoeddus a phroffesiynol i ddeall yr hyn sy'n rhwystro pobl rhag dewis cael y brechlyn, a chyflwyno ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael â hyn.
- ✓ Sicrhau, lle bynnag y bydd hynny'n bosibl, bod deunydd cyfathrebu wedi'i dargedu yn rhoi sylw i bob brechlyn priodol o fewn brand 'Mae Brechlynnau'n Arbed Bywydau'.

Mae 'cynllun cyfathrebu' penodol ar gyfer Ymgyrch Anadlol y Gaeaf hefyd wedi'i greu.

Cadw gwyliadwriaeth a rhannu gwybodaeth

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd yn cynhyrchu a bydd yn parhau i gynhyrchu amrywiaeth o ddeunyddiau sy'n rhoi sylw i'r meysydd canlynol:

- ✓ Dangosyddion gwaith i gadw gwyliadwriaeth ar salwch sy'n debyg i ffliw (ILI) a heintiau anadlol aciwt (ARI)
- ✓ Cadw gwyliadwriaeth ar heintiau anadlol aciwt difrifol a gafwyd yn y gymuned (SARI) a chleifion mewnol mewn ysbytai
- ✓ Cadw gwyliadwriaeth yn y gymuned ac mewn ysbytai ar COVID-19 a marwolaethau mewn ysbytai a chartrefi gofal y tybir eu bod yn sgil COVID-19
- ✓ Cadw gwyliadwriaeth o ganlyniadau difrifol heintiau anadlol aciwt
- ✓ Gwybodaeth am deipio, dilyniannodi a dadansoddi genomig wrth gadw gwyliadwriaeth ar ARI a COVID-19
- ✓ Cadw gwyliadwriaeth ar frechlynnau COVID-19 a ffliw
- ✓ Cadw gwyliadwriaeth ar ragdueddiad ymhlith y boblogaeth.





Mae pandemig COVID-19 wedi dangos yn glir bwysigrwydd cadw gwyliadwriaeth systematig a chadarn ar heintiau anadlol. Mae SARS-CoV-2 bellach yn un o achosion endemig niferus heintiau anadlol yng Nghymru. Gan fod heintiau anadlol yn aml yn ymddangos yn debyg, ac yn cylchredeg ar yr un pryd, fe wnaethon ni gynnig y dylid diweddarau'r strategaeth cadw gwyliadwriaeth bresennol ar gyfer salwch sy'n debyg i ffliw (ILI), heintiau anadlol aciwt (ARI) a heintiau anadlol aciwt difrifol (SARI), er mwyn iddi gynnwys SARS-CoV-2 a COVID-19. Bydd hyn yn fwy o gymorth ac yn fwy effeithlon na chael ffrydiau cadw gwyliadwriaeth ar wahân, gan alluogi dadansoddi pathogenau penodol ar yr un pryd.


Mae cadw gwyliadwriaeth ar ffliw yn dal yn flaenoriaeth, hyd yn oed ers dyfodiad SARS-CoV-2, oherwydd mae'r baich o ran afiachedd a marwolaethau yn debyg, gydag epidemigau'n digwydd yn flynyddol. Heb gadw gwyliadwriaeth ofalus ar ffliw, gall fod oedi wrth wneud penderfyniadau ynghylch defnyddio cyffuriau gwrthfeirol i drin neu roi proffylaxis ar gyfer ffliw ym y gymuned.

Mae'n bwysig canfod y math a lefel y cytras yn brydlon er mwyn rhoi gwybod am feirysau ffliw penodol a'r effaith gysylltiedig ar wahanol leoliadau (e.e. effaith cytrasau ffliw A sydd wedi drifftio (H3N2) ar gartrefi gofal preswyl) ac i roi sail i gyfansoddiad brechlynnau yn y dyfodol.

Mae'n bwysig canfod y math a lefel y cytras yn brydlon er mwyn rhoi gwybod am feirysau ffliw penodol a'r effaith gysylltiedig ar wahanol leoliadau (e.e. effaith cytrasau ffliw A sydd wedi drifftio (H3N2) ar gartrefi gofal preswyl) ac i roi sail i gyfansoddiad brechlynnau yn y dyfodol.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru gan hynny wedi canfod ac wedi cynghori bod angen cryfhau'r gwaith i gadw gwyliadwriaeth ar ffliw a heintiau anadlol eraill. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yng Nghynllun Ymateb Anadlol Llywodraeth Cymru.

Gwasanaethau microbiolog



Mae'r gwasanaethau microbiolog yn lechyd Cyhoeddus Cymru wedi parhau i ddarparu profion nad ydyn nhw'n ymwneud â COVID ar lefelau digynsail, yn ychwanegol at yr ymateb i'r pandemig. Cyn y pandemig, i gyd, roedd 1.3m o samplau wedi'u prosesu a'u profi, a chynyddodd y ffigur i 1.7m yn 2021/22. At hynny, mae'r gwasanaeth wedi gwneud nifer tebyg o brofion am COVID-19 yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ystod 2021/22, mae ein gwasanaethau profi am COVID-19 wedi'u gwreiddio'n llawn, gan roi amrywiaeth o allu profi gan gynnwys profion moleciwlaidd sydyn ym mhob safle ysbyty aciwt ynghyd â chapasiti mwy yn ein labordy COVID yn Lab 2 Imperial Park 5. Yr amser cyfartalog ar gyfer cwblhau profion sydyn mewn labordai a phrofi ar gyfradd uchel oedd 2 awr a 6 awr yn y drefn honno. Fe wnaeth y gwasanaeth hefyd gyflwyno profion

am amrywiolion mewn mater o ddiwrnodau ar ôl i amrywiolyn Omicron ddechrau lledaenu. Roedd hyn er bod ein gweithlu ein hunain yn wynebu heriau yn sgil cael eu heintio â COVID-19. Er bod y cyfraddau salwch yn bron i 20% ar adegau, parhaodd y gwasanaethau, er i bethau lithro fymryn o ran ein hamseroedd cwblhau yn y labordai.

Yn ogystal ag ymateb i'r pandemig ac ymateb i gynnydd mewn gwaith nad oedd yn gysylltiedig â COVID-19, mae'r broses o wella a datblygu'r gwasanaeth wedi parhau:

- ✓ Cynhaliodd y rhwydwaith ei ystod o wasanaethau sydd wedi'u hachredu gan UKAS ac ychwanegu ei swyddogaethau 'Hot Lab' a phroffion COVID-19 wrth ehangu ei gwmpas;
- ✓ ynhalwyd ymarfer caffael masnachol i ddisodli ein contractau Diwylliant a Chyfryngau (rhoddwyd y contractau ym mis Mai 2022);
- ✓ Cwblhawyd ymarfer caffael masnachol ar gyfer y gwasanaeth moleciwlaidd enterig
- ✓ Cwblhawyd ymarfer caffael cyfalaf i ddisodli ein platfformau MALDI-TOF sy'n elfen greiddiol o'n gwasanaeth bacterioleg;
- ✓ Ehangwyd ein gweithlu o Gymdeithion Meddygol a Gwyddonwyr Cyswllt Biofeddygol Clinigol wrth ailddylunio ein gwasanaethau clinigol.

Bydd y flwyddyn nesaf yn cynnwys nifer o ffrydiau gwaith a fydd yn parhau â'n huchelgais ers tro i ailddylunio'r gweithlu, cyflwyno technolegau newydd, a rhoi mwy o bwyslais ar y gwasanaethau y tu allan i'r labordy.

Helpu i leihau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd

Mae'r rhaglen ar gyfer heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (HCAI) a phresgripsiynu gwrthficrobaidd (AMR) (HARP) yn parhau i roi cyngor sy'n ymwneud â COVID-19 a chynghor nad yw'n ymwneud â COVID-19 er mwyn helpu Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r GIG. Mae'r newidiadau yn y ffordd o ddarparu gwasanaethau drwy'r maes gofal iechyd yng Nghymru yn ystod y pandemig wedi parhau i effeithio ar allu Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd i gyflawni'r targedau disgwylidiedig cenedlaethol ar gyfer lleihau heintiau yn 2021/22.

Mae'r ffigurau cadw gwyliadwriaeth dros dro diweddaraf gan Fyrdau/ Ymddiriedolaethau Iechyd yng Nghymru yn dangos y canlynol:

Mae **1,095 o achosion o C. Difficile** wedi'u cofnodi ers mis Ebrill 2021, **sydd tua 24%** yn fwy na'r cyfnod cyfatebol yn **2020/21**.

Mae **2,133 o achosion o facteramia E. Coli** wedi'u cofnodi ers mis Ebrill 2021, **sydd tua 13%** yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

Mae **837 o achosion o facteramia Staph Aureus** wedi'u cofnodi ers mis Ebrill 2021, **sydd tua 7%** yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

Mae **617 o achoion o facteramia Klebsiella sp** (sy'n cynnwys bacteramia E. aerogenes o fis Ebrill 2019 ymlaen) wedi'u cofnodi ers mis Ebrill 2021, sydd yr un fath â chyfnod **2020/21**.

Mae **188 o achosion o facteramia P. aeruginosa** wedi'u cofnodi ers mis Ebrill 2021, **sydd tua 27%** yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

Mae pwyslais ein gwaith ers mis Ebrill 2021 wedi canolbwyntio ar y canlynol:

- ✓ Cadw gwyliadwriaeth ar HCAI ac AMR yn gysylltiedig â COVID-19 a chymorth gyda gwaith ym maes atal a rheoli heintiau
- ✓ Cadw gwyliadwriaeth ar Atal a Rheoli Heintiau HCAI a phresgripsiynu gwrthficrobaidd (AMR)
- ✓ Cyngor a chymorth ym maes presgripsiynu gwrthficrobaidd
- ✓ Ailgychwyn Bwrdd Cyflawni AMR a Grŵp Canllaw Gwrthficrobaidd Cymru Gyfan
- ✓ Datblygu'r ymgyrchoedd ymwybyddiaeth byd-eang ac Ewropeaidd, gan ganolbwyntio ar y prif flaenoriaethau i Gymru
- ✓ Parhau i gyfrannu at gell atal a rheoli COVID-19 y Deyrnas Unedig gyfan
- ✓ Sefydlu grŵp gofal cymunedol a gofal sylfaenol ym maes atal a rheoli gyda chysylltiadau ag arweinwyr cymunedol i helpu cartrefi gofal

Adfer a Datblygu Gwasanaethau Sgrinio

Rydyn ni'n darparu, yn monitro ac yn gwerthuso saith o raglenni sgrinio ar gyfer y boblogaeth, ac yn cydlynu'r rhwydwaith clinigol sy'n cael ei reoli drwy Gymru gyfan ar gyfer sgrinio cyn geni. Mae'r rhaglenni sgrinio wedi'u seilio ar argymhellion a wneir ar sail tystiolaeth gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y Deyrnas Unedig, sy'n cael eu hystyried gan Bwyllgor Sgrinio Cymru a'u rhoi ar waith yn unol â'r polisi y cytunodd Llywodraeth Cymru arno.

Nod y rhaglenni yw naill ai lleihau achosion o glefydau (e.e. sgrinio serfigol) neu wella diagnosis cynnar i leihau effaith clefyd (e.e. sgrinio'r fron). Mae gan yr is-adran raglen gynhwysfawr i werthuso a gwneud gwelliannau yn unol â phenderfyniadau polisi. Mae'r boblogaeth sy'n gymwys yn cael cynnig gwasanaethau sgrinio mewn ffordd deg, ond ceir amrywiad yn y nifer sy'n dewis manteisio, a blaenoriaeth o bwys yw galluogi pobl i gydsynio'n wybodus er mwyn gwella'r nifer sy'n dewis cael eu sgrinio a lleihau anghydraddoldeb yn hynny o beth.


A hwythau'n wasanaethau clinigol, effeithiodd y pandemig ar y rhaglenni sgrinio. Ar ddechrau'r pandemig ym mis Mawrth 2020, cafodd pump o'r rhaglenni eu hatal dros dro yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Effeithiodd hyn ar y canlynol: Bron Brawf Cymru, Sgrinio Serfigol Cymru, Sgrinio Coluddion Cymru, Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru a

Sgrinio Ymlediad Aortaidd yn yr Abdomen Cymru. Parhaodd y rhaglenni Sgrinio Clyw Babanod Cymru, Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig a Sgrinio Cyn Geni drwy gydol y pandemig, ac ni chawson nhw eu hatal o gwbl.

Cafodd y rhaglenni eu hailgychwyn mewn dull graddol, wedi'i seilio ar risg, yn ystod haf 2020, ac maen nhw wedi parhau i gael eu cynnig ers eu hailgychwyn, ond bu cyfyngiadau wrth geisio adfer y rhaglenni. Mae'r rhain wedi cynnwys y gallu i gynnig sgrinio i lai o bobl ym mhob clinig oherwydd llwybrau COVID-19 diogel; cyfyngiadau o ran y lleoliadau clinig sydd ar gael; a'r ffaith bod llai o staff ar gael.

Datblygwyd cynllun adfer, ynghyd â'i gostio a chytuno arno. Roedd y cynllun yn dangos rhagolwg o danwariant yn y cyllidebau refeniw ar gyfer sgrinio, o ran costau nad oedd disgwyl iddyn nhw gael eu gwario yn 2021/22. Roedd angen cyllid ychwanegol i gefnogi'r cynllun ym mlwyddyn ariannol 21/22 (£1.3 miliwn) a chadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'n gallu darparu'r arian hwn ym mis Medi 2021. Mae'r cyllid wedi'i ddefnyddio yn unol â'r bwriad yn ystod blwyddyn ariannol 21/22. Bydd angen rhagor o gyllid i barhau â'r cynllun adfer yn 22/23, ond nid yw'r arian hwn wedi'i gadarnhau hyd yma.

Roedd y cynllun adfer a roddwyd ar waith yn 2021 wedi llwyddo i adfer y rhaglen sgrinio coluddion erbyn mis Hydref 2021 a'r rhaglen sgrinio serfigol erbyn mis Rhagfyr 2021



Roedd y cynllun adfer yn canolbwyntio ar gyflwyno mwy o weithgarwch sgrinio, ac roedd y camau gweithredu'n cynnwys:

- ✓ Staff ychwanegol.
- ✓ Staff presennol i weithio oriau ychwanegol.
- ✓ Cynyddu nifer y lleoliadau ar gyfer clinigau a'r effeithlonrwydd yn y lleoliadau presennol.
- ✓ Niferoedd uwch yn cael eu gwahodd gyda chynnydd cysylltiedig yn ystod y flwyddyn mewn defnyddiau traul.
- ✓ Gwella arferion i gynyddu effeithlonrwydd e.e. postio llythyron drwy gontract allanol, brysennu dros y ffôn, a gwahoddiadau agored.

Roedd y cynllun adfer a roddwyd ar waith yn 2021 wedi llwyddo i adfer y rhaglen sgrinio coluddion erbyn mis Hydref 2021 a'r rhaglen sgrinio serfigol erbyn mis Rhagfyr 2021. Mae'r cynllun wedi golygu bod modd gwella gweithgarwch y tair rhaglen sy'n weddill, gyda'r gweithgarwch hwnnw'n dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn COVID-19 ar gyfer sgrinio'r fron a sgrinio am ymlediad aortaidd yn yr abdomen.

I gynyddu gweithgarwch y rhaglen Sgrinio Llygaid Diabetig, darparwyd llwybr optometreg newydd rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Mawrth 2022.

Roedd hwn yn cynnig adolygiad o'r retina drwy optometreg i gyfranogwyr a oedd â risg isel o retinopatheg diabetig. Cefnogodd dros 166 o optomegwyr drwy Gymru y llwybr newydd hwn, ac roedd pob awdurdod lleol wedi'i gynrychioli. Rhoddwyd dros 28,000 o wahoddiadau a gwnaed dros 10,000 o apwyntiadau yn ystod y cyfnod hwn. Mae angen dull mwy trawsnewidiol o weithio ar y rhaglen i ganfod model gwasanaeth cynaliadwy y gellir ei ddefnyddio yng Nghymru, a dyna waith y byddwn yn ei wneud dros y flwyddyn nesaf.



Mae'r is-adran wedi parhau i ddatblygu a gwella darpariaeth gwasanaethau sy'n cynnwys y canlynol:

- ✓ Ym mis Hydref 2021, cymerwyd y cam nesaf i wella'r rhaglen sgrinio coluddion drwy ei chyflwyno i bobl 58 a 59 oed. Mae'r rhaglen bellach yn gwahodd pobl rhwng 58 a 74 oed bob dwy flynedd.
- ✓ Mae'r labordy sgrinio wedi rhoi gwasanaeth profion imiwnocemegol ar ysgarthion sydd wedi'i achredu gan UKAS i Fyrddau Iechyd, a hynny i bobl symptomatig, yn unol â chanllawiau NICE i wella'r llwybr symptomatig a chynnig colonosgopi fel sy'n addas.
- ✓ Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyllid o £7.8 miliwn dros ddwy flynedd er mwyn rhoi cyfarpar newydd i raglen sgrinio'r fron. Sefydlwyd ffrwd waith i gaffael a chyflawni'r rhaglen waith sylweddol hon, sy'n mynd rhagddi yn unol â'r cynllun.
- ✓ Cyflwynodd yr is-adran gyfyngau sgrinio hwy ar gyfer y rhaglen sgrinio serfigol ym mis Ionawr 2022 yn unol ag argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y Deyrnas Unedig. Bydd menywod a phobl sydd â cheg y groth rhwng 25 a 49 oed ac nad ydyn nhw â risg uchel o feirws papiloma dynol wrth gael eu sgrinio y tro nesaf yn cael eu gwahodd yn ôl mewn 5 mlynedd yn hytrach na 3 mlynedd. Cafwyd ymateb negyddol cryf ar y cyfyngau cymdeithasol gan y cyhoedd, a sefydlwyd deiseb i wyrdroi'r penderfyniad, ynghyd â chynnal dadl yn y Senedd. Mae ymgyrch gyfathrebu wrthi'n cael ei llunio i sicrhau bod y negeseuon iawn yn cael eu rhoi, ac i ennyn ymddiriedaeth drachefn.
- ✓ Mae'r is-adran wedi arwain y gwaith o gyflwyno'r Profion Cynenedigol Heb Lawdriniaeth fel profion wrth gefn ar gyfer y rheini sy'n disgwyl efeilliaid yng Nghymru, ac wedi gwerthuso'r rhain fel profion wrth gefn a fydd yn sail i wledydd eraill y Deyrnas Unedig. Cymru oedd y wlad gyntaf i gyflwyno'r prawf hwn ac mae'r gwerthusiad wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar mewn cyfnodolyn a adolygir gan gymheiriaid.

Mae'r is-adran wedi bod yn arwain gwaith systemau i gael cytundeb Prif Weithredwyr i sefydlu gwasanaeth teg i gadw gwyliadwriaeth ar fenywod sydd â risg uchel iawn o ganser y fron yn unol â NICE. Mae'r broses o roi'r ddarpariaeth hon ar waith ar y gweill.



Gwella Iechyd


Cafodd staff ein His-adran Gwella Iechyd eu symud bron i gyd i helpu gyda'r ymateb i'r pandemig, gyda'r staff yn dychwelyd o ddiwedd mis Mai 2021. Mae'r effaith ar ddarparu'r rhaglen a maint y gwaith adfer a oedd yn angenrheidiol wedi bod yn arwyddocaol.

Fe wnaeth y rhaglenni a'r gwasanaethau Gwella Iechyd y pennwyd eu bod yn hanfodol (Helpa Fi i Stopio; y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff) barhau i ddarparu gwasanaethau wedi'u haddasu drwy gydol y pandemig, a hynny yn ddigidol neu dros y ffôn. Wrth i'r cyfnod adfer fynd yn ei flaen, dychwelwyd at ffyrdd mwy normal o weithio, gyda'r arloesi llwyddiannus yn cael ei gynnwys bellach yn yr opsiynau ar gyfer y ddarpariaeth arferol.

Mae'r rhaglenni Ysgolion Hybu Iechyd wedi parhau i gael eu darparu mewn ffyrdd wedi'u haddasu, gan ganolbwyntio ar helpu gydag effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y pandemig, gan gynnwys helpu i roi'r Dull Ysgol Gyfan ar waith ar gyfer lles emosiynol a meddyliol. Gan weithio gyda Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd yn y Byrddau Iechyd, trefnwyd cymorth pwrpasol i roi'r fframwaith strategol ar waith ar gyfer lles meddyliol ac emosiynol, a chrëwyd adnodd asesu a chanllawiau cysylltiedig i helpu ysgolion i edrych yn fanylach ar eu gwaith yn y maes hwn a chanfod cyfleoedd i wella. Mae'r gwaith yn dal i fynd rhagddo yn ystod 2022 i gefnogi'r gwaith hwn, gan gydnabod yr amgylchedd heriol y mae COVID-19

wedi parhau i'w greu i'n hysgolion. Rydyn ni hefyd wedi gweithio gydag arbenigwyr o bob rhan o Gymru i ddatblygu dull o gyflwyno pecyn cymorth sy'n dangos beth sy'n gweithio'n dda ym maes lles meddyliol ac emosiynol. Bydd yr argymhellion yn cael eu rhoi ar waith yn ystod 2022 i helpu ysgolion i ddewis ymyriadau wedi'u seilio ar dystiolaeth i ddiwallu eu hanghenion ym maes iechyd a lles emosiynol a meddyliol.

Newidiodd rhaglen Cymru Iach ar Waith ei ddarpariaeth yn ystod y pandemig er mwyn helpu cyflogwyr i atal trosglwyddiad COVID-19 a darparu un man canolog i roi gwybodaeth a chanllawiau. Yn sgil ymchwil a wnaeth Cymru Iach ar Waith gyda chyflogwyr, gwelwyd bod pryderon penodol am iechyd a lles meddyliol staff, ac mae hynny wedi arwain at ddatblygu cynhyrchion, gan gynnwys dau bodlediad am gefnogi iechyd meddwl staff. Cynhaliwyd digwyddiad i roi clod ym mis Rhagfyr 2021, gan gydnabod llwyddiannau cyflogwyr wrth flaenoriaethu iechyd a lles staff a chyfrannu at anghenion ehangach y gymuned drwy'r pandemig. Rhoddwyd clod i sefydliadau bach, canolig a mawr mewn amryw o sectorau. Mae adroddiad o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg wedi'i greu, ac mae nifer o astudiaethau achos wedi'u datblygu gyda'r rheini a gafodd wobrau Cymru Iach ar Waith er mwyn rhannu gwersi ac arferion da.



Cynhaliwyd digwyddiad i roi clod ym mis Rhagfyr 2021, gan gydnabod llwyddiannau cyflogwyr wrth flaenoriaethu iechyd a lles staff a chyfrannu at anghenion ehangach y gymuned drwy'r pandemig.

Yn ystod y pandemig, gohiriwyd yr Adolygiad Strategol a'r gwaith trawsnewid ar y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff, Cynlluniau Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru, a Cymru Iach ar Waith, ond mae'r gwaith hwn wedi ailgychwyn tua diwedd y flwyddyn a bydd yn parhau i fynd rhagddo yn 2022.

Roedd y meysydd hynny a ddynodwyd ar gyfer eu hailgychwyn yn gyfyngedig tua diwedd 2020 yn cynnwys cymorth i roi Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach ar Waith. Cwblhawyd gwaith ar Lwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan ar gyfer Oedolion ac ar gyfer Plant a Theuluoedd, a hynny gan weithio gyda grŵp cyfeirio o arbenigwyr o bob rhan o'r system. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r gwaith hwn ym mis Ebrill 2021, ynghyd â chyfres o safonau ar gyfer darparu gwasanaethau i bobl dros bwysau a phobl ordew yng Nghymru. Nod y safonau hyn yw helpu i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y boblogaeth, ond hefyd dull o weithio sy'n canolbwyntio ar bobl ac wedi'i seilio ar seicoleg er mwyn lleihau stigma ynghylch pwysau. Fe wnaethon ni weithio hefyd gyda Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd er mwyn creu dull o weithio drwy'r system gyfan gyda thîm

cymorth pwysau iach yn rhanbarth pob Bwrdd Iechyd, ac er mwyn sefydlu tri chynllun pilot i blant a theuluoedd, wedi'u seilio ar fuddsoddiad newydd. Mae'r gwaith wedi dechrau i adolygu ein dull o gadw gwyliadwriaeth ym maes pwysau iach a gweithgarwch corfforol, er mwyn gallu mynd ati'n effeithiol i fonitro a gwerthuso camau gweithredu ym maes iechyd y cyhoedd a phwysau iach ledled Cymru.

O ran gweithgarwch corfforol, cynhaliwyd rhaglen gyfyngedig o waith a honno wedi arwain at ddatblygu cynllun strategol sydd wedi'i seilio ar ymddygiad er mwyn darparu lefelau uwch o deithio llesol i'r ysgol. Mae'r Bwrdd Teithio Llesol wedi cefnogi'r gwaith hwn. Rydyn ni hefyd wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chwaraeon Cymru i ddatblygu'r cynnig Bywiog Bob Dydd a helpu ysgolion i weithio drwy'r ysgol gyfan ym maes gweithgarwch corfforol.

Gwelliant Cymru

Ein nod yw helpu i greu'r system gofal ac iechyd o'r ansawdd gorau i Gymru, er mwyn i bawb allu cael gofal diogel, effeithiol ac effeithlon yn y lle iawn ac ar yr adeg iawn, a hynny drwy'r holl system gofal. I wneud hyn, rydyn ni'n gweithio gyda sefydliadau ledled Cymru i greu'r amodau, i feithrin y gallu, ac i greu'r cysylltiadau er mwyn i'r broses wella ffynnu.

Rydyn ni hefyd yn gweithio gydag arbenigwyr blaenllaw ledled y Deyrnas Unedig a gyda phartneriaid rhyngwladol i sicrhau bod gwelliannau ac arloesi mewn ansawdd ac iechyd yn cael eu harwain gan yr arferion gorau, gan hyrwyddo dull cyffredin o weithio. Penodwyd Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru i fwrdd y Q Health Foundation ac fael aelodau o Q, rydyn ni'n cymryd rhan mewn cynllun arwain systemau ar gyfer y gymuned

welliant. Mae'r cynllun hwn yn cysylltu sefydliadau gwella sy'n gymheiriaid ledled y Deyrnas Unedig ac Iwerddon i ddeall beth y mae ei angen ar lefel genedlaethol i greu'r amodau a fydd yn galluogi'r broses wella a dysgu i ffynnu. Gan gryfhau ein presenoldeb rhyngwladol ymhellach, rhoddodd ein Pennaeth Rhaglenni gyflwyniad yn Fforwm rhyngwladol nodedig IHI ar wella ansawdd mewn gofal iechyd.

Ar Ddiwrnod Diogelwch Cleifion y Byd 2021, lansiwyd strategaeth Gwelliant Cymru, **'Gwella Ansawdd a Diogelwch'**, sy'n dangos sut y bydd y tîm yn gweithio gyda'r system iechyd a gofal yng Nghymru i sicrhau bod pawb yn gallu cael gofal diogel, effeithiol ac effeithlon – a hynny yn y lle iawn, ar yr adeg iawn. Mae'r strategaeth yn cael ei rhoi ar waith drwy un rhaglen gynhwysfawr o'r enw 'Gofal Diogel Gyda'n Gilydd'. Mae tair elfen i'r rhaglen hon:

1. Datblygu dull sefydliadol o sicrhau canlyniadau ansawdd
2. Lledaenu ac ehangu gofal diogel
3. Ymgrych i newid ymddygiad pobl



Rydyn ni'n gweithio'n agos gydag ymddiriedolaethau a byrddau iechyd i ganfod ble y gallwn eu helpu gyda'u blaenoriaethau, gan ddatblygu cytundebau i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Mae'r strategaeth a'n dull o weithio wedi'u profi yn y gymdeithas drwy fod yn bresennol yn rheolaidd mewn grwpiau o gymheiriaid a thrwy barhau i ymwneud â phartneriaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.



1. Datblygu dull sefydliadol o sicrhau canlyniadau ansawdd

Mae ein dull sefydliadol newydd o sicrhau canlyniadau ansawdd yn defnyddio gwersi gan sefydliadau sy'n perfformio'n dda, gan ganolbwyntio ar gryfhau dull o sicrhau ansawdd drwy'r system gyfan. Rydyn ni wedi dechrau treialu dull o sicrhau ansawdd drwy'r system gyfan yn Gwelliant Cymru, a bydd yr hyn a ddysgir o'r cynllun peilot hwn yn datblygu'r dull o weithio cyn ei gyflwyno drwy sefydliadau GIG Cymru.

Er mwyn helpu i roi ein strategaeth ar waith, rydyn ni wedi comisiynu Rhaglen Arweinwyr Diogelwch Cleifion sy'n helpu unigolion ar lefel Cyfarwyddwyr/Cyfarwyddwyr Cynorthwyol yn GIG Cymru i ddatblygu a chyflwyno systemau gofal diogel.

Ochr yn ochr â hyn, rydyn ni hefyd wedi dechrau cylch Dysgu 90 diwrnod i ganfod yr heriau y mae'r system iechyd a gofal yng Nghymru yn eu hwynebu ar hyn o bryd, a bydd y cylch dysgu hwn yn argymhell camau galluogi allweddol sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth er mwyn helpu i oresgyn yr heriau hyn. Disgwylir y bydd y gwaith hwn yn cyd-fynd â chyfarwydddebau polisi a'r canfyddiadau o ymweliadau ag ymddiriedolaethau a byrddau iechyd dros y misoedd nesaf, gan lywio ein gwaith at y dyfodol.

Ar ran Llywodraeth Cymru, rydyn ni wedi cyd-gynhyrchu Canllawiau Statudol ar y Ddyletswydd Ansawdd gyda GIG Cymru, ac wedi dechrau datblygu deunyddiau addysg i gyrff y GIG a Gweinidogion i helpu i roi'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) ar waith yn 2023.

2. Lledaenu ac ehangu gofal diogel

Rydyn ni'n rhoi cymorth dwys i sefydliadau i'w helpu gyda'u blaenoriaethau diogelwch lleol. Un elfen o'r cymorth hwn yw'r Fethodoleg Llif Capasiti Galw Amser Real, sydd wedi'i dreialu mewn tri safle. Mae'r cynllun peilot a'r hyfforddiant wedi'u cyflwyno, ac mae gwaith bellach yn mynd rhagddo i ddefnyddio'r hyfforddiant er mwyn helpu llif mewn ysbytai ac i werthuso'r effaith. Bydd hyn yn cefnogi byrddau iechyd, ymddiriedolaethau a gwasanaethau gofal gyda'u gwaith i wella diogelwch yn eu systemau.

Rydyn ni hefyd wedi bod yn gweithio gydag asiantaethau niferus gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i helpu cartref gofal i ddatblygu a gwella ymhellach y modd y mae gofal yn cael ei gydlyn. Bydd hyn yn rhoi cynifer o gyfleoedd â phosibl i barhau i ofalu am bobl yn eu cartrefi, ac yn lleihau'r angen i'w cludo i adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae hwn wedi bod yn ddarn dyfal o waith i roi cymorth i staff cartref gofal, gan weithio gydag asiantaethau i brofi'r gwelliannau.

Tua diwedd y flwyddyn, fe wnaethon ni ffurfio partneriaeth strategol 2 flynedd gyda'r Sefydliad Gwella Gofal Iechyd (IHI) i gyflymu ein cefnogaeth i GIG Cymru drwy'r cynllun Gofal Diogel Gyda'n Gilydd. Bydd hyn yn cefnogi'r cytundebau partneriaeth rydyn ni'n eu sefydlu ag ymddiriedolaethau a byrddau iechyd i ganfod eu hanghenion cymorth ym maes ansawdd a diogelwch. Bydd y bartneriaeth hefyd yn helpu i lansio'r rhaglen gydweithredol ar gyfer diogelwch cleifion yn 2022.

Rydyn ni hefyd wedi lansio cyrsiau hyfforddiant Academi Gwelliant Cymru, gan gynnwys Sylfeini, Hanfodion a Gwella Ymarfer; a grŵp 2 rhaglen Arweinwyr Gwella'r Alban (ScIL). Mae'r rhain yn helpu staff iechyd a gofal i feithrin y sgiliau gwella y mae eu hangen arnyn nhw i barhau i wella'r gofal a'r cymorth maen nhw'n ei ddarparu.



Astudiaeth achos yn cyflwyno egwyddorion y strategaeth yn ein gwaith:

Mae Gwelliant Cymru wedi gweithio gyda staff yn Ysbyty'r Tywysog Charles i gynnal gwelliannau i lif cleifion – yn benodol drwy helpu tîm rheoli'r safle i ymateb i argymhellion a wnaed gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Fe wnaethon ni gomisiynu cyfleoedd dysgu gyda Toyota a dod â Toyota ar y safle i helpu gyda gwaith yn yr Adran Achosion Brys.

Arweiniodd hyn at sefydlu cyfarfod 'Yn Ddiogel i Ddechrau'. Mae'r cyfarfod hwn yn dod â staff o'r holl safle at ei gilydd i ddeall y galwadau o ran llif cleifion, y problemau ar y safle, a heriau staffio.

Gan ddatblygu ar y gwaith hwn, daeth Ysbyty'r Tywysog Charles yn un o dri safle ysbyty a ddewiswyd i dreialu'r Capasiti Galw Amser Real.

3. Ymgyrch i newid ymddygiad pobl

Rydyn ni'n datblygu ymgyrch i newid ymddygiad pobl sy'n berthnasol i staff iechyd a gofal ar bob lefel, gan ddefnyddio dull "calonnau a meddyliau" i annog pobl i feddwl am ansawdd, diogelwch a gwella. Yn sail i'r gwaith hwn, rydyn ni wedi mynd ati i gasglu gwybodaeth.

Mae ein partneriaeth â'r Sefydliad Iechyd, Labordy Q Cymru, yn parhau i ddatblygu ac esblygu'i waith. Fe drefnodd gyfres o weithdai dysgu rhithwir, gan ganolbwyntio ar [sgiliau ar gyfer newid ar y cyd](#) a chafodd ein gwaith i gwmpasu'r rhwystrau wrth geisio cynnwys staff a thimau mewn cynlluniau gwella lleol ei gwblhau. Mae'r wybodaeth o'r gwaith ymchwil hwn wedi rhoi sail i gam nesaf ein rhaglen i newid ymddygiad pobl, sy'n helpu sefydliadau i ennyn diddordeb eu gweithluoedd mewn gwella. Dros yr haf, bydd gweithgor gyda chynrychiolaeth o bob sefydliad yn mynd ati i greu adnoddau gyda gwybodaeth ar gyfer addasu'n lleol.

Rydyn ni hefyd wedi darparu Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Ym maes iechyd meddwl, fe drefnon ni hyfforddiant i wreiddio ffyrdd o fesur canlyniadau mewn ymarfer; cynhaliwyd archwiliad o wasanaethau Seicosis Cyfnod Cynnar yn sail i flaenoriaethau ar gyfer gwella yn y dyfodol; datblygwyd safonau ar gyfer gwasanaethau cyswllt seiciatrïg; a pharhawyd i gefnogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyda safonau gofal dementia.

Ym maes anableddau dysgu, fe wnaethon ni barhau i helpu i ddatblygu ffyrddau gwaith ar gyfer plant a phobl ifanc, gwasanaethau arbenigol, ac iechyd corfforol. Mewn partneriaeth ag AaGIC, rydyn ni wedi lansio'r Fframwaith Addysg Anabledd Dysgu i staff gofal iechyd yng Nghymru, ac wedi rhoi hyfforddiant gorfodol i wella ymwybyddiaeth o anabledd dysgu drwy sefydliad Paul Ridd.



Astudiaeth achos

Trawsnewid y rhwydwaith cenedlaethol o labordai i ateb y galw am brofion COVID-19 (yn ystod 20/21 a 21/22 ill dwy)

Microbiology services have been pivotal to the pandemic response. Rapid turnaround of test result helps is essential in ensuring effective contact tracing of positive individuals. The challenge is ensuring equity across a national network of laboratories.

As diagnostic capacity for COVID-19 expanded across Wales large variations in turnaround times were observed. A baseline analysis of the laboratory network noted multiple issues requiring system wide improvement.

A national improvement program was developed, supported by data analysis and modelling to redesign processes, flow of samples and coordination of the network.

Within 8 weeks, in-laboratory turnaround time reduced from 24 hr to 6 hrs and sustained. The network now uses a data led approach to planning and looking to improve times further using improvement methodology.



Astudiaeth achos

Gwella effeithlonrwydd llif samplau COVID-19 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Yn ystod pandemig COVID-19, bu Gwelliant Cymru a'r tîm Microbioleg yn cydweithio i wella amseroedd cwblhau profion COVID-19 mewn labordai ledled Cymru.

Roedd cydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ymwybodol o'r gwaith a wnaed yn labordy Ysbyty Glan Clwyd, a gofynnwyd i Gwelliant Cymru am gymorth i wella llif samplau COVID-19 mewn dwy adran yn y Bwrdd Iechyd, cyn i'r rheini gyrraedd y labordy:

- ✓ Yn eu Hadran Achosion Brys – gan geisio cwtdogi'r amser rhwng yr adeg pan fydd claf yn cyrraedd yr Adran Achosion Brys a'r adeg pan gaiff ganlyniad ei brawf COVID-19.
- ✓ Drwy ei phedair Uned Brofi yn y Gymuned – gyda'r nod o gwtogi gwastraff drwy'r holl broses o drefnu apwyntiad, paratoi a mynychu.

Gan weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr o'r Bwrdd Iechyd a Chanolfan Rheoli Darbodus Toyota, bu Gwelliant Cymru yn cynnal adolygiad ar y safle a dadansoddiad o'r prosesau. Golygodd y gwaith hwn fod gan gydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr well dealltwriaeth o'r cyfyngiadau a'r cyfleoedd a oedd yn gysylltiedig â'u system, a bu modd iddyn nhw berchnogi a gweithredu i sicrhau amryw o welliannau ymarferol yn yr Adran Achosion Brys a'u Hunedau Profi yn y Gymuned.



Astudiaeth achos

Ailddylunio Llwybr Canser y Fron: effaith newid ar gleifion a staff ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Yn 2021, cyflwynodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro newid dros dro i'w lwybr diagnostig ar gyfer canser y fron. Yn hytrach nag un clinig, byddai'r llwybr bellach yn golygu proses ac iddi ddau gam. Mae'r newid bellach yn cael ei fonitro i weld a yw'n gynaliadwy.

Yn sgil y newid, mae defnyddwyr gwasanaethau wedi cael dau apwyntiad yn hytrach nag un:

- ✓ clinig cyn cael mamogram ac yna
- ✓ clinig ar ddyddiad diweddarach

Amcanion y newid hwn oedd:

- ✓ Canfod achosion o ganser y fron yn gyflymach cyn mamogram a darparu llwybr cyflym i apwyntiad clinig
- ✓ Cynyddu'r capasiti a'r gyfradd brosesu er mwyn cwtdogi'r amseroedd amser cyffredinol

Rhoddwyd y newid hwn ar waith yn sgil:

- ✓ Cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau ar ôl pandemig COVID-19
- ✓ Llai o gapasiti mewn clinigau oherwydd y gofynion i gadw pellter ac i atal a rheoli heintiau yn sgil COVID-19
- ✓ Cynnydd yn yr amser aros i 6-7 wythnos ar gyfer gofal heb ei drefnu a 6-7 mis am ofal arferol

- ✓ Llai o adnoddau radioleg

Bu Gwelliant Cymru yn edrych ar nifer o glinigau, gan gasglu amseroedd i greu siartiau Gantt ar gyfer clinigau penodol. Bu hefyd yn cyfweld â staff ac yn gweithio â Phrofiad Cleifion Caerdydd a'r Fro i gael adborth. Yn olaf, mae'r tîm wedi gweithio gyda Rhwydwaith Canser Cymru i gasglu a dadansoddi data o Gaerdydd a'r Fro i weld a fu newidiadau sylweddol mewn amseroedd aros.

Roedd yr adborth cyffredinol gan y staff yn gadarnhaol ynghylch newid y broses. Barn y staff oedd:

- ✓ bod clinigau'n fwy hwylus
- ✓ bod mwy o gyfle i wneud defnydd o amser radiolegyddion
- ✓ bod amser clinigol yn cael ei ddefnyddio'n well a bod llai o wastraff

Serch hynny, fe wnaeth staff fynegi pryderon am yr effaith ar brofiad a lles cleifion, gan ddweud:

- ✓ bod pryderon ynghylch lefel y gorbryder yn sgil yr amser rhwng y sgan a'r drafodaeth glinigol
- ✓ y gallai fod effaith negyddol yn sgil dau apwyntiad h.y. amser teithio, parcio, gofal plant ac oriau gwaith

Mae'r data cychwynnol yn dangos gwelliant ar gyfer atgyfeiriadau at ofal heb ei drefnu. Mae angen rhagor o ddadansoddi i bennu a yw'r newid yn gynaliadwy.

Gofal Sylfaenol

Ar ôl i staff ddychwelyd o fis Gorffennaf 2021 ymlaen ar ôl cael eu symud i ymateb i bandemig COVID-19, dechreuodd yr Is-adran Gofal Sylfaenol weithio ar raglen waith estynedig ac uchelgeisiol i ddatblygu dull ataliol wedi'i gydlyn ym maes gofal sylfaenol a gofal cymunedol, i drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal, ac i gefnogi ac arwain gwelliannau ym maes iechyd y geg a gwasanaethau deintyddol yng Nghymru.

Datblygodd y portffolio atal i ymateb i'r meysydd blaenoriaeth a ddaeth i'r amlwg yn sgil y pandemig, ac yn benodol yr angen i atal gordewdra a hybu lles pobl drwy ofal sylfaenol a gofal cymunedol. Mae ein prif feysydd gwaith wedi canolbwyntio ar y canlynol:

- ✓ Sefydlu, dylunio ac arwain Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan.
- ✓ Arwain datblygiadau i gefnogi gwaith i Atal Gordewdra mewn gofal sylfaenol a gofal cymunedol.
- ✓ Cydlynw'r elfennau sydd i'w cyflawni drwy bresgripsiynu cymdeithasol yn y Strategaeth Cymunedau Cysylltiedig a helpu i ddatblygu fframwaith cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol.

Mae ein gwaith trawsnewid wedi amrywio dros y deuddeg mis diwethaf, gan ganolbwyntio ar ddarparu'r cerrig sylfaen ar gyfer gweithio mewn clwstwr ac aeddfedrwydd, iechyd y boblogaeth, gwaith atal, a datblygu gwasanaethau wrth i ofal sylfaenol ddechrau adfer ar ôl y pandemig. Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar yr elfennau creiddiol i'w cyflawni ym maes iechyd y cyhoedd, yn ogystal â chefnogi a chyfrannu o safbwynt iechyd y cyhoedd at y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a diwygio contractau. Yn eu plith mae:

- ✓ Cryfhau'r Fframwaith Gofal Sylfaenol Gwyrddach a chynllun gwobrwy, gyda lansiad ffurfiol wedi'i gynllunio ym mis Mehefin 2022
- ✓ Defnyddio contractau ar gyfer gwaith atal mewn gofal sylfaenol, wedi'i seilio ar adolygiadau o'r dystiolaeth
- ✓ Cefnogi'r agenda gwella iechyd llygaid drwy roi cynngor arbenigol ym maes iechyd y cyhoedd
- ✓ Bwrw ymlaen â'r canllawiau iechyd i gyn-filwyr ar gyfer practisau cyffredinol yng Nghymru ochr yn ochr â phartneriaid allweddol, gyda lansiad wedi'i gynllunio ym mis Mehefin 2022 i gyd-fynd â Diwrnod y Lluoedd Arfog.

Darparwyd Model Gofal Sylfaenol ar gyfer Cymru a chynllun i fonitro a gwerthuso'r modd mae'r broses o Ddatblygu Clystyrau Carlam yn mynd rhagddi, gan ddangos sut y bydd yr uchelgeisiau hyn i drawsnewid pethau yn rhoi sicrwydd ynghylch cynnydd, gwersi a ddysgir ar y cyd, a chymorth i uno cynlluniau lleol a rhanbarthol ledled Cymru.

Gwnaeth ymgynghorwyr iechyd y cyhoedd yn y maes deintyddol ac aelodau eraill o'r tîm gyfraniad o bwys at ddarparu ein hymateb i COVID-19 yn ystod 2021/22. Yn ogystal â'n cyfraniad at ymateb y sefydliad i'r pandemig, fe roeson ni gyngor a chymorth am bolisiau a chmau gweithredu i'r gangen polisi deintyddol yn Llywodraeth Cymru, i wahanol dimau yn y Byrddau Iechyd, ac i wasanaethau deintyddol, ar gyfer lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 mewn lleoliadau deintyddol, ond gan ddal i ddarparu gofal deintyddol hanfodol. Cafodd pob rhaglen ddeintyddol ym maes iechyd y cyhoedd (y Cynllun Gwên, Rhaglen Ddiwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, y Rhaglen Epidemioleg Ddeintyddol) eu hatal dros dro ar ddechrau'r pandemig. Yn gynnar yn 2022, dechreuodd gwaith i ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac yn enwedig â Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol, er mwyn ailgychwyn y Cynllun Gwên a'r Rhaglen Epidemioleg Ddeintyddol yng Nghymru.

Materion diogelu



Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn cydnabod bod diogelu yn hanfodol i ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a'r swyddogaethau rydyn ni'n eu darparu. Mae gennyn ni drefniadau diogelu i roi cyngor a chymorth, yn bennaf gan y Gweithiwr Proffesiynol a Enwyd ar gyfer Diogelu.

Asesiad blynyddol Matrics Diogelu Aeddfedrwydd Cymru Gyfan yw'r prif adnodd i roi sicrwydd ynghylch ein sefyllfa bresennol ac i ganfod ble mae angen gwneud gwelliannau. Mae proses adolygu gan gymheiriaid, sy'n pontio nifer o sefydliadau, wedi'i gwreiddio yn null gweithio Rhwydwaith Diogelu'r GIG ac mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn cymryd rhan yn y broses hon ac wedi nodi sgoriau asesu eleni a'r camau gweithredu ar gyfer gwella, fel y gwelir isod.

Ceir rhagor o wybodaeth yn [Adroddiad Diogelu Blynyddol 2021/22](#). Er nad oes gwelliant wedi'i weld yn sgoriau aeddfedrwydd y ddwy flynedd ddiwethaf, bu hyn oherwydd effaith symud staff allweddol yn sgil COVID-19. Bydd y cynllun gwella arfaethedig yn cael ei gynnwys yng nghyflwyniad Matrics Diogelu Aeddfedrwydd eleni, gyda'r pwyslais ar sicrhau rhagor o welliannau yn y meysydd a nodwyd.

Ymhlith prif lwyddiannau 2021/22 roedd:

Sefydlwyd Cyfarfodydd Llysgenhadon Diogelu bob deufis gyda'r Arweinydd Diogelu a Enwyd, a benodwyd yn ddiweddar, ynghyd â chreu sianel ar TEAMS i rannu'r holl wybodaeth ddiogelu sydd ar gael, gan gynnwys Bwletinâu'r Rhwydwaith Diogelu, gwybodaeth am gyfleoedd hyfforddiant, a diweddariadau am ddeddfwriaeth. Mae adborth wedi'i roi drwy ddatblygu Microsoft Forms er mwyn gallu gwella cyfarfodydd ac er mwyn i anghenion proffesiynol y Llysgenhadon Diogelu lywio'r cyfarfodydd hynny

Mae'r gwaith wedi dechrau ar gwblhau Y Ffordd Gywir: Dull Hawliau Plant i'w gyflwyno i Gomisiynydd Plant Cymru. Bydd cyfarwyddiaethau yn lechyd Cyhoeddus Cymru'n cael eu cefnogi i gwblhau'r matrics a rhoddir ystyriaeth i gynnwys y Llysgenhadon Ifanc yn y darn hwn o waith

Mae'r broses o gydymffurfio â Hyfforddiant Grŵp 2 Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi gwella ar ôl datblygu platfform rhithwir ar gyfer y ddarpariaeth

Gan gydweithio â'r tîm sgrinio, mae pecyn hyfforddiant pwrpasol wedi'i ddatblygu a'i ddarparu er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau gorau'n cael eu gwneud er budd aelodau'r cyhoedd sy'n defnyddio gwasanaethau sgrinio ac sydd heb alluedd. Mae'r ffurflen gydsynio 4s (cydsyniad gan y rheini sydd heb alluedd) wedi'i chyflwyno ar gyfer sgrinio am ymlediad aortaid yn yr abdomen, gyda'r nod o'i chyflwyno ar gyfer pob gwasanaeth sgrinio gan ddefnyddio methodoleg gwella ansawdd.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar lechyd Cyhoeddus Cymru i ymwneud â Byrddau Diogelu Rhanbarthol Plant ac Oedolion. Mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwmo i weithio mewn partneriaeth a bydd yn cymryd rhan mewn prosesau diogelu ar gyfer ymchwilio a dysgu pan fydd problem wedi dod i'r amlwg yng nghyd-destun gwasanaethau neu swyddogaethau'r sefydliad.

Oherwydd cyd-destun cenedlaethol ein sefydliad, rydyn ni wedi ysgrifennu at y Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac wedi cynnig bod yn aelod anrhydeddus ar gyfer y materion gweithredol sy'n gysylltiedig â busnes y Byrddau Diogelu, gan fod yn bresennol ar gyfer eitemau penodol ar yr agendâu a darparu'r adroddiad blynyddol i roi sicrwydd. Mae Gweithwyr Diogelu Proffesiynol Dynodedig o lechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn mynychu'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol i roi cyngor iechyd annibynnol sy'n gysylltiedig â diogelu.

Ymhlith enghreifftiau eraill o waith mewn partneriaeth mae:

- ✓ Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru a'i is-grwpiau
- ✓ Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn dal i gynnal cysylltiadau ag awdurdodau lleol ledled Cymru
- ✓ Swyddfeydd y Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn
- ✓ Llinell Gymorth Byw Heb Ofn



Data, Gwybodaeth ac Ymchwil

Cafodd y tîm ei ddefnyddio'n bennaf i helpu gyda'r ymateb i'r pandemig tan haf 2021. Dychwelodd y staff at eu dyletswyddau craidd ar yr un pryd ag y cafodd y Gyfarwyddiaeth arweinydd newydd, pan ymunodd Iain Bell â hi.




Bu'r Gyfarwyddiaeth Data, Gwybodaeth ac Ymchwil yn helpu gyda'r ymateb i'r pandemig, er enghraifft drwy gynnal ymchwil sydyn ym maes olrhain cysylltiadau a chyhoeddi Proffil Adfer COVID-19. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, drwy ei swyddfa Ymchwil a Datblygu, wedi arwain ac wedi gwneud gwaith goruchwyllo a chydlyn strategol ar gyfer darparu ymchwil i frechlynnau COVID-19 ledled Cymru. Mae hyn wedi helpu gydag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pobl Cymru yn gallu achub ar gyfleodd ymchwil ym maes brechlynnau.

Mae gwaith a wnaed gan dîm Ymchwil a Gwerthuso'r gyfarwyddiaeth wedi'i ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru yn sail i bolisiau a chamau gweithredu, ac hefyd wedi cyfrannu at rannu gwybodaeth yn rhyngwladol am COVID-19. Mae'r adroddiadau canlynol wedi cael eu llunio:

- ✓ **Hyder, ymlyniad a heriau hunanynysu: mewnwleidiadau ymddygiad gan gysylltiadau achosion COVID-19 yn dechrau ac yn cwblhau hunanynysu yng Nghymru;** cyflwynwyd yr adroddiad hwn i Lywodraeth Cymru ac yng Nghynhadledd Gwyddoniaeth Iechyd y Cyhoedd (Tachwedd 2021), ac fe'i defnyddiwyd wedyn yn sail i bolisiau yng Nghymru yn ogystal ag yn sail i rywfaent o waith y Ganolfan Ymateb yn Public Health England.
- ✓ **Ffactorau sy'n Dod i'r Amlwg fel Sbardunau i Fregusrwydd o Ran Annhegwch Iechyd yng Nghydestun COVID-19: Safbwyntiau ac ymateb gan y Sector Gwirfoddol a Chymunedau yng Nghymru;** ymddangosodd hwn yn rhifyn mis Rhagfyr 2021 o gylchgrawn EuroHealthNet yn ogystal â'i drafod yn y Pwyllgor Brechu Teg a chael ei 'groesawu'n unfrydol' gan aelodau'r pwyllgor.
- ✓ **Deall a mynd i'r afael â rhwystrau a hwyluswyr lefelau brechu rhag y fflw a COVID-19 ymysg gweithwyr y GIG yng Nghymru: Mewnwelediadau ansoddol ac ymyriadau a gyd-gynhyrchwyd;** defnyddiwyd yr adroddiad gan Fyrddau Iechyd ledled Cymru yn sail i'r arferion gorau wrth gyflwyno'r brechlyn i weithwyr y GIG.
- ✓ **Gofalwyr di-dâl yng Nghymru: Creu e-garfan i ddeall cyflyrau iechyd hirdymor ymhlith gofalwyr di-dâl yng Nghymru.** Lansiodd Llywodraeth Cymru y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl: cynllun cyflawni, a hwnnw'n cyflwyno'r rhaglen hon o waith fel ffynonellau tystiolaeth i fesur llwyddiant a chynnydd o dan y pedair prif flaenoriaeth a amlinellwyd yng nghynllun y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl.
- ✓ **Proffil Adfer COVID-19.** Fe wnaeth Tîm yr Arsyllfa a Dadansoddi Canser (OCAT) barhau i ddatblygu a diweddarau'r proffil rhyngweithiol hwn a oedd yn rhoi trosolwg o niweidiau ehangach Covid o ran marwolaethau, darpariaeth gwasanaethau'r GIG, sgrinio ac imiwneiddio, ymddygiadau iechyd a lles meddyliol, a phenderfynyddion ehangach iechyd. Rhoddodd y tîm hefyd ddiweddariadau wythnosol am farwolaethau i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer dangosfwrdd Cadw Gwyladwriaeth Sydyn Covid-19 Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae dadansoddwyr OCAT yn arwain y gwaith o ddatblygu dangosfwrdd Trosolwg Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae prosiect y dangosfwrdd yn defnyddio dulliau Ystwyth i sicrhau bod defnyddwyr yn ganolog i'w ddatblygiad. Rydyn ni'n dilyn dull gwyddor data i ganolbwyntio ar awtomeiddio cynhyrchion a fydd yn cael eu defnyddio ar raglen Azue Cloud Microsoft Iechyd Cyhoeddus Cymru, er enghraifft.



Mae Gwasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn aelod craidd wrth gydweithio ar gynlluniau Canolfan Dystiolaeth COVID-19. Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r Ganolfan, gyda'r nod o sicrhau bod y dystiolaeth fwyaf diweddar a pherthnasol am Covid-19 a'i effeithiau ar gael i amrywiaeth eang o randdeiliaid, er mwyn helpu i gynllunio a gwneud penderfyniadau. Cynhaliodd y ganolfan adolygiadau sydyn i helpu gyda chynllunio brys, ac mae'n parhau i helpu gyda'r ymdrechion i ailadeiladu a byw gyda Covid. Mae tîm Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi arwain gwaith yn y meysydd hyn:

- ✓ Effeithiolrwydd arloesi i gynorthwyo cleifion sydd ar restrau aros am lawdriniaethau dewisol (2022)
- ✓ Y rhwystrau a'r hyn sy'n annog pobl i ymddwyn mewn ffordd sy'n eu diogelu mewn lleoliadau cyhoeddus (2022)
- ✓ Effeithiolrwydd mesurau atal a rheoli heintiau a roddir ar waith mewn lleoliadau addysg a gofal plant (2021)
- ✓ Y nifer o oedolion sy'n dewis cael eu brechu (y rhwystrau/yr hyn sy'n eu hannog ac ymyriadau) o gymunedau anhaeddiannol neu anodd i'w cyrraedd (2021)

Er i nifer o unigolion gael eu symud i ymateb yn uniongyrchol i Covid-19, llwyddodd **Uned Deallusrwydd a Gwyladwriaeth Cancer Cymru (WCISU)** i barhau i weithio ar gofrestru achosion o ganser ymhlith yr holl boblogaeth a chwblhau data 2019.

Cafodd ystadegau swyddogol am y nifer sy'n goroesi cancer, mynychder cancer a nifer y marwolaethau eu cynhyrchu o hyd, a pharhaodd WCISU i roi cryn gymorth i fyrddau iechyd wrth reoli ac ymchwilio i bryderon am nifer o glystyrau cancer cymunedol posibl.

Cafodd adnoddau eu dargyfeirio i arwain gwaith ymchwil newydd ar y cyd i ganser ymhlith y boblogaeth, sef Cydweithio Cancer Cymru DATA-Can gyda SAIL Databank Prifysgol Abertawe, Health Data Research UK, ac eraill. Yn y cam cyntaf, y flaenoriaeth fu cynnal ymchwil sydyn i effeithiau'r pandemig ar ddiagnosis o ganser a chanlyniadau cancer.



Dyma'r llwyddiannau hyd yma

Effaith pandemig SARS-CoV-2 ar fynychder cancer yr ysgyfaint o faint celloedd mwy, cancer y colon a'r rhefr, a chanser y fron ymhlith benywod, camau'r cancer hwnnw, a'r llwybr gofal iechyd i gael diagnosis yn ystod 2020 yng Nghymru, y Deyrnas Unedig, gan ddefnyddio system genedlaethol ar gyfer cofnodion clinigol am ganser

Cyflwynwyd y canfyddiadau cynnar i Ganolfan Dystiolaeth Covid-19; Grŵp Cyngori Technegol Covid-19 Llywodraeth Cymru; Bwrdd Cancer Cymru; Grwpiau Rhwydwaith Clinigol Cancer Cymru; a chynhadledd Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r ymchwil bellach wedi'i dderbyn i'w gyhoeddi yn y *British Journal of Cancer*.

Datblygu set ddata sydd bron ar sail amser real ar gyfer diagnosis o ganser, a honno wedi'i seilio ar ddata patholeg a gafwyd wrth gofrestru cancer

Bydd hyn yn cael ei gynnwys ar ddangosfwrdd Trosolwg Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer cadw gwyliadwriaeth ar ddiagnosis cancer sydd bron ar sail amser real er mwyn monitro effaith y pandemig. Dan arweiniad WCISU, mae'r data hefyd wedi'i ddadansoddi ochr yn ochr â data tebyg o Ogledd Iwerddon a'r Alban i gymharu effeithiau'r pandemig rhwng gwledydd. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflwyno yn fuan iawn i'w gyhoeddi.

Datblygu set ddata sydd bron ar sail amser real ar gyfer diagnosis o ganser a honno wedi'i seilio ar wneud gwaith diweddar i gysylltu nifer o setiau data clinigol a gofal iechyd o fewn SAIL Databank

Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd i ddeall sut mae diagnosis o ganser yn cael ei roi, camau'r cancer hwnnw, a llwybrau gofal iechyd ar gyfer 20 math o ganser rhwng 2019 a 2022.

Cytuno ar raglen arfaethedig o ymchwil ym maes Covid-19 a chanser er mwyn rhoi sail i bolisi yng Nghymru, a hynny gyda'r Ganolfan Dystiolaeth Covid-19 a Chyfarwyddwr Clinigol Cancer Cenedlaethol Cymru, yn amodol ar gael cyllid

Mae'r rhaglen hon yn cynnwys y cynhyrchion a restrwyd eisoes.

Mae WCISU wedi parhau i gymryd rhan mewn ymchwil rhyngwladol sy'n rhoi sail i bolisiau a gwasanaethau iechyd yng Nghymru, ac yn enwedig y Bartneriaeth Meincnodi Canser Ryngwladol. Bydd WCISU hefyd yn cyfrannu at arwain y thema iechyd cleifion a'r boblogaeth yn Strategaeth Ymchwil Canser Cymru gyda Chanolfan Ymchwil Canser Cymru.

Mae'r uchafbwyntiau o ran cyhoeddiadau mewn cyfnodolion nodedig dros y flwyddyn yn cynnwys y canlynol:

- ✓ Risk factors and prognostic implications of diagnosis of cancer within 30 days after an emergency hospital admission (emergency presentation): an International Cancer Benchmarking Partnership (ICBP) population-based study. Ebrill 2022. *The Lancet Oncology*
- ✓ International variation in oesophageal and gastric cancer survival 2012–2014: differences by histological subtype and stage at diagnosis (an ICBP SURVMARK-2 population-based study) Tachwedd 2021. *Gut*
- ✓ A summary of the updated report on the incidence and epidemiological trends of keratinocyte cancers in the United Kingdom 2013-2018. Medi 2021 *British Journal of Dermatology*
- ✓ Life expectancy inequalities in Wales before COVID-19: an exploration of current contributions by age and cause of death and changes between 2002 and 2018. Ebrill 2021. *Public Health*

Mae'r pandemig wedi cael effeithiau mawr ar nifer o elfennau ym maes iechyd y cyhoedd. Serch hynny, mae'r gyfarwyddiaeth wedi parhau i gyflawni, i ddatblygu, a lle mae hynny'n bosibl, i ehangu cwmpas ei gwaith, gan gynnwys:

- ✓ Sefydlu System Arolygu Hunanladdiad Amser Real – gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, yr Heddlu a Chydweithrediad Iechyd GIG Cymru. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth amserol i allu parhau i fonitro effaith y pandemig.
- ✓ Bu'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant yn monitro marwolaethau drwy hunanladdiad posibl yn ystod y pandemig, gan gynnal adolygiad sydyn o farwolaethau drwy hunanladdiad posibl ymhlith plant (o dan 18 oed) yn 2021. Mae crynodeb o'r adolygiad hwn wedi'i gyhoeddi fel atodiad i'r adroddiad am Batrymau a Thueddiadau mewn marwolaethau plant yng Nghymru (2011-20), sydd ar gael fan hyn: <https://phw.nhs.wales/publications/publications1/patterns-and-trends-of-child-deaths-in-wales-2011-2020/>
- ✓ Bu'r Gwasanaeth Gwybodaeth a Chofrestr Anomaledau Cynhenid (CARIS) yn casglu gwybodaeth a oedd yn benodol gysylltiedig â'r pandemig, gan lunio adroddiad ystadegol swyddogol yn hydref 2021.
- ✓ Effeithiodd y pandemig yn ddifrifol ar y broses o gasglu data ar gyfer y Rhaglen Mesur Plant. Yn hydref 2021, dechreuodd adolygiad o ddata 2019-2021 a gwaith i ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol.



Mae Swyddfa Ymchwil a Datblygu Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhoi ymateb 'Un Cymru' a goruchwyliaeth strategol o bob treial COVID-19 i helpu gyda'r gwaith o ddarparu Treialon Brechlynnau Clinigol COVID-19 ledled Cymru, mewn partneriaeth â HCRW. Mae'r tîm wedi cefnogi naw o dreialon brechlynnau COVID-19, gan gynnwys un a edrychais ar driniaethau gwrthfeirrol, gyda dros 2,123 o gyfranogwyr ledled Cymru yn cael eu recriwtio i'r astudiaethau hyn.


A ninnau'n ymwybodol o effaith fawr y pandemig, a'r effaith y bydd yn parhau i'w chael, ar benderfyniadau ehangach iechyd, rydyn ni wedi rhoi tystiolaeth i helpu i ddatblygu'r cynllun peilot ar gyfer Incwm Sylfaenol Cyffredinol. Rydyn ni hefyd wedi cyhoeddi adroddiad ynghylch a yw unrhyw swydd yn well na pheidio â chael swydd.

Mae'r Gyfarwyddiaeth hefyd wedi dechrau datblygu dulliau o wneud gwaith dylunio a datblygu sy'n canolbwyntio ar y defnyddwyr.



- ✓ Rydyn ni wedi cysylltu â defnyddwyr ein cynhyrchion i ofyn am adborth a helpu i wella'r rhain at y flwyddyn sydd o'n blaenau.
- ✓ Rydyn ni wedi dechrau mapio ein gwaith ymchwil i ddatblygu strategaeth ymchwil a gwerthuso newydd a fydd yn cael ei chyhoeddi yn 2022/23.
- ✓ Rydyn ni wedi dechrau datblygu sgiliau datblygu YSTWYTH er mwyn helpu i wella ein gwasanaethau drwy weithio gyda'r Gwasanaethau Sgrinio i gynnal cyfnod darganfod ym maes Sgrinio Llygaid Diabetig ac hefyd i ddatblygu dangosfwrdd sy'n rhoi trosolwg o iechyd y cyhoedd yng Nghymru.
- ✓ Rydyn ni wedi dechrau datblygu 'dangosfwrdd Trosolwg Iechyd y Cyhoedd' gan ddefnyddio dull 'Ystwyth' o weithio sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr, ynghyd â thechnoleg arloesol;
- ✓ Ac rydyn ni'n recriwtio ac yn buddsoddi i ddatblygu ein gallu a'n capasiti ym maes data a gwyddor data.

DYSGU SEFYDLIADOL, GWYBODAETH A NARATIF COVID-19



Casglu gwersi i'w dysgu

Fel sefydliad, rhaid inni barhau i ddysgu o'n hymateb sydyn i COVID-19. Mae'r pandemig wedi newid yr hyn rydyn ni'n ei wneud a sut rydyn ni'n ei wneud, sy'n golygu bod gennyn ni gyfle sylweddol i ddefnyddio'r gwersi rydyn ni wedi'u dysgu yn sail i wasanaethau a phrosesau'r dyfodol. Mae'n bwysig hefyd ein bod yn gallu dangos bod gennyn ni gofnod clir o'n rôl a'n gweithredoedd yn ystod y pandemig, gyda'n penderfyniadau, ein perfformiad a'n gwaith rheoli yn gefn i hynny. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth helpu gydag unrhyw ymchwiliadau cyhoeddus a gwaith ymchwil yn y dyfodol.



Yn ystod y pandemig, fe wnaethon ni gyflwyno gwasanaethau a rolau newydd, ac rydyn ni wedi newid sut rydyn ni'n gweithio. Mae rhai o'n rhaglenni a'n gwasanaethau wedi cael eu hatal a bydd angen eu hailgychwyn gan ddefnyddio ffyrdd newydd o weithio. Mae maint y newid yn golygu bod llawer o wahanol gyfleoedd ar gyfer dysgu wedi dod i'r amlwg, ac mae'n bwysig ein bod yn cofnodi'r wybodaeth hon ac yn ei defnyddio wrth i'r galw a'r gofynion arnon ni newid.

Mae ein sefydliad yn paratoi'n ddiymdroi at Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19. Mae gennyn ni adnodd pwrpasol wedi'i greu i ganfod, casglu, cofnodi a storio data, gwybodaeth a thystiolaeth yn ddiogel. Rydyn ni'n creu Naratif Sefydliadol o'r digwyddiadau, gan adrodd stori ein sefydliad a'r modd yr oedd yn barod am y pandemig, sut y gwnaeth ein sefydliad ymateb, a sut y mae ein sefydliad wedi adfer o effaith y pandemig. Bydd ein stori yn helpu gyda'r dystiolaeth a gaiff ei chasglu a'i chyflwyno i Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19.



GALLUOGI'R SEFYDLIAD



Mae ein swyddogaethau galluogi yn hollbwysig i gyflawni ein blaenoriaethau ym maes iechyd y cyhoedd ac i helpu ein sefydliad yn ehangach i adfer. Mae gan alluogwyr gyfraniad hanfodol i'w wneud wrth arwain a chyflawni sawl maes gwaith gwahanol, ochr yn ochr â'n gwaith yn parhau i ymateb i COVID-19 ac wrth i'r sefydliad barhau i symud tuag at adfer a chyflawni ein hystod llawn o swyddogaethau a gweithgareddau statudol.

Adolygu ein Strategaeth Hirdymor

O ganlyniad i'r heriau sylweddol y mae Cymru wedi'u hwynebu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, fe wnaethon ni gytuno i adolygu ein strategaeth hirdymor, 'Gweithio i Wireddu Dyfodol Iachach i Gymru' er mwyn sicrhau ei bod yn addas i'w diben ac y bydd yn gallu ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd ym maes iechyd y cyhoedd y bydd Cymru'n eu hwynebu wrth inni adfer ar ôl y pandemig.

Golygodd yr ymateb parhaus ac effaith bosibl amrywiolyn Omicron bod pwysau sylweddol ar y system iechyd a gofal cymdeithasol, ac fe wnaethon ni barhau i ganolbwyntio ar yr ymateb, ar ailgychwyn gwasanaethau, ac ar les y staff. Fe wnaethon ni sylweddoli bod cryn barodrwydd i ymgysylltu â phobl, ond nad oedd llawer o gyfleoedd yn hynny o beth. O ganlyniad, cytunwyd bod angen rhoi mwy o amser a chyfleoedd i ymgysylltu dros y flwyddyn nesaf.

Bydd hyn yn ein galluogi i wneud y canlynol:



Creu mwy o amser i ymgysylltu â phobl yn effeithiol a chynnal sgysiau da yn fewnol ac yn allanol



Sicrhau ein bod yn hwyluso ac yn creu gofod i gynnal trafodaethau rhwng sefydliadau



Galluogi proffesiynau a grwpiau i ddod ynghyd i lywio a rhoi sail i gynigion



Ymgysylltu â'r cyhoedd gan ddefnyddio'r sianeli a'r dulliau sy'n bodoli'n barod



Gwneud penderfyniadau doeth

Rydyn ni wedi addasu ein ffordd o wneud penderfyniadau wrth inni barhau i symud drwy'r pandemig, ac wedi sicrhau bod ein penderfyniadau yn gyson, yn gymesur, yn glir, yn amserol, wedi'u seilio ar ansawdd ac argaeledd gwybodaeth, ac yn cael eu gwneud ar y lefel briodol. Rydym ni wedi datblygu ar y cynnydd rydym ni wedi'i wneud hyd yma i sicrhau gwerth am arian, cyflawni buddion, sicrhau ansawdd a gwelliannau, a chynllunio sut rydym ni'n rheoli risg.

Drwy gydol y 12 mis diwethaf, mae'r Bwrdd wedi parhau i adolygu ei drefniadau llywodraethu ac wedi gwneud nifer o newidiadau i'r ffordd mae'n gweithio. Rydym ni wedi parhau i gynnal ein safonau llywodraethu a'r amrywiadau i'n rheolau sefydlog (y rheolau ysgrifenedig sy'n rheoleiddio ein gwaith) drwy gydol y pandemig.

Mae rhagor o wybodaeth am ein trefniadau llywodraethu a'n dulliau o wneud penderfyniadau yn y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol.


Rheoli risgiau

Mae hi'n hanfodol rheoli risgiau wrth gynnal sefydliad llwyddiannus. Dylai hyn fod yn ganolog i brosesau gwneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau, a hynny ar lefel weithredol a chynllunio. Dylai geisio canfod cyfleoedd i arloesi a buddsoddi, ochr yn ochr â'r angen i leihau risgiau.

Yn ystod y flwyddyn, rydym ni wedi adolygu ein risgiau strategol a'n risgiau corfforaethol i adlewyrchu'r newid yng nghyd-destun ein hymateb i bandemig COVID-19 a'r broses o ailgychwyn gwasanaethau.

Yn ogystal â'r cofrestru risg, cwblhawyd darn sylweddol o waith i gyflwyno Cynllun Datblygu Rheoli Risgiau. Mae'r cynllun yn atgyfnerthu'r gwaith da sydd wedi'i wneud dros y pum mlynedd ddiwethaf i ddysgu gwersi o'r ffordd y mae risgiau wedi'u rheoli drwy gydol y pandemig ac i sicrhau bod lechyd Cyhoeddus Cymru yn symud yn ei flaen ar ei siwrnai i fod yn sefydliad sy'n perfformio'n dda o ran ei drefniadau rheoli risgiau. Mae'r cynllun yn cynnwys gwaith ar barodrwydd i dderbyn risg, ac ar hyfforddiant a datblygu ym maes risgiau ar bob lefel. Mae hefyd wedi golygu cyflwyno modiwl ar risgiau o System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru.

Mae rhagor o fanylion am sut rydym ni'n rheoli risgiau yn ein Datganiad Llywodraethu Corfforaethol.



Ansawdd a gwella

Rydyn ni'n ceisio bod yn batrwm o ran ansawdd, gwella ac arloesi, ac mae gennyn ni ddull o weithio drwy'r holl sefydliad er mwyn rheoli ansawdd. Rydyn ni wedi ymrwymo i weithredu fel system sydd wedi'i dylunio i reoli ansawdd, gan ganolbwyntio ar wella parhaus ac arloesi, a hynny wedi'i sbarduno gan anghenion y boblogaeth rydyn ni'n ei gwasanaethu.

Yn ei dro, bydd hyn yn creu diwylliant ac amgylchedd sy'n cefnogi ein staff ac yn creu lle gwyh i staff weithio ynddo a ffynnu. Mae'r dull hwn o weithio yn helpu gyda'r broses o adfer a chreu dyfodol newydd yn dilyn pandemig COVID-19, ac yn gymorth i gyflawni ein hamcanion strategol.

Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ('y Ddeddf Ansawdd')

Bydd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ('y Ddeddf Ansawdd') yn bodoli mewn ffurf gysgodol erbyn mis Hydref 2022 ac yn cael ei rhoi ar waith ym mis Ebrill 2023. Mae dau fframwaith yn sail i'r Ddeddf: Y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch: Dysgu a Gwella, a'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol: System Gofal Iechyd sy'n Dysgu.

Wrth baratoi at oblygiadau'r Ddeddf Ansawdd, cafodd ein Strategaeth Ansawdd a Gwella ei chyhoeddi, a'i chymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mai 2021.

At hynny, rydyn ni wedi cymeradwyo'r dull 'Ansawdd fel Strategaeth Fusnes' ar gyfer y sefydliad.

Model Llywodraethu Integredig

Cafodd mabwysiadu Model Llywodraethu Integredig ei ddynodi'n alluogwr allweddol i lechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn iddo ddod yn sefydliad sy'n perfformio'n dda a chyrraedd ein lefel nesaf o ran aeddfedrwydd. Mae llywodraethu integredig yn rhoi dull holistig a chydlynol ar gyfer ein prosesau, ein gweithdrefnau a'n trefniadau adrodd, yn ogystal ag i'n diwylliant a'n cymhwysedd i gefnogi strwythurau llywodraethu effeithiol.

Gweithio i Wella

Rydyn ni'n croesawu pryderon (digwyddiadau, cwynion a hawliadau) fel ffordd o wella'r gwasanaethau a'r rhaglenni rydyn ni'n eu darparu. Rydyn ni'n derbyn na fyddwn ni wastad yn llwyddo i wneud pethau'n iawn, ac weithiau byddwn yn methu â bodloni eich disgwyliadau. Pan fydd hyn yn digwydd, rydyn ni wedi ymrwymo i wneud beth allwn ni i wneud iawn a dysgu o'r cwynion, fel nad yw'r un peth yn digwydd eto. O ganlyniad, mae gennyn ni systemau i gydnabod pan fydd pethau'n mynd o chwith, i ymchwilio i weld pam mae problemau'n digwydd, ac i gyflwyno newidiadau os bydd hynny'n addas.

Mae adborth a dysgu'n bwysig inni, gan ei fod yn rhoi cyfle inni wella ac ychwanegu at ein gwasanaethau a'n rhaglenni. Hefyd, mae'n bwysig bod pobl yn teimlo'u bod wedi cael eu clywed, wedi cael eu trin â pharch, ac wedi cael ymateb agored, gonest a phrydlon i'w pryderon.

Rydyn ni'n parhau i reoli pryderon o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011.

Yn 2021-2022, daeth 94 o gwynion ffurfiol i law

Roedd tair prif thema i'r cwynion, fel yr esbonnir isod. Rydyn ni wedi cynnwys enghreifftiau o'r mathau o gwynion a ddaeth i law a'r gwersi sydd wedi'u dysgu ohonyn nhw.

1. Canllawiau / Gweithdrefnau / Polisiâu

Roedd y ddau fath pennaf o gwynion a ddaeth i law yn mynegi anfodlonrwydd â chanllawiau lechyd Cyhoeddus Cymru i gartrefi gofal yn ystod pandemig COVID-19 ac anfodlonrwydd ag ymestyn cyfyngau'r gwasanaeth sgrinio serfigol arferol yng Nghymru.

2. Agwedd / Ymddygiad

Math arall cyffredin o gwynion yn ystod y cyfnod hwn oedd cwynion am agwedd ac ymddygiad pobl, ac agwedd aelodau'r staff at ddefnyddwyr gwasanaethau'n benodol.

3. Cydraddoldeb / Iaith

Mae mwyafrif y cwynion hyn yn berthnasol i'r Is-adran Sgrinio ac mae nifer yn ymwneud ag anfodlonrwydd â fideo YouTube BSL gan Iechyd Cyhoeddus Cymru am sgrinio.

Enghraifft o Wers i'w Dysgu 1

Cafwyd nifer o gwynion am ehangu cyfwng sgrinio arferol y gwasanaeth Sgrinio Serfigol o 3 blynedd i 5 mlynedd.

Yr hyn a ddysgwyd o'r cwynion hyn yw y dylid rhoi mynediad / dolenni i wybodaeth a thystiolaeth ynghylch newidiadau i wasanaethau pan gaiff negeseuon eu creu i'r cyhoedd am hynny, gan ei bod hi'n glir o'r cwynion bod y cyhoedd eisiau'r wybodaeth hon.

Gwers arall i'w dysgu yw nad y cyfryngau cymdeithasol o bosibl yw'r platfform mwyaf addas i gyfathrebu newidiadau o'r fath, yn sgil nifer cyfyngedig y nodau y gellir eu defnyddio.

Ar ôl i gwynion ddod i law, cymerwyd camau i newid y cynllun cyfathrebu cyhoeddus ac i gynnal adolygiad pellach ynghylch defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer newidiadau o'r fath. Rhoddodd aelodau'r Is-adran Sgrinio hefyd nifer o gyfweiliadau â'r cyfryngau prif ffrwd i gywiro rhywfaint o'r camddealltwriaeth a'r bylchau yng ngwybodaeth pobl.

Enghraifft o Wers i'w Dysgu 2

Cafwyd cwyn gan ddefnyddiwr gwasanaeth a oedd wedi bod yn rhan o'n rhaglenni sgrinio ac a deimlai nad oedd ein haelod o staff wedi rhoi llawer o groeso iddo yn ystod yr apwyntiad. Dywedodd y cwynwr nad oedd yr aelod o staff wedi cyflwyno neb, a'i fod wedi teimlo'i fod yn achosi anghyfleustra.

Y gwersi i'w dysgu o'r gŵyn hon yw bod angen cyfathrebu'n glir wrth wisgo cyfarpar diogelu personol, ynghyd â gwneud ymdrech arbennig i fod yn gyfeillgar ac yn rhadlon, yn sgil colli arwyddion gweledol fel mynegiant y wyneb. Mae'n hanfodol hefyd bod y staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ym maes gofal cwsmeriaid.

Cymerwyd camau ar ôl i'r gŵyn hon ddod i law i gyfathrebu â'r staff yn y meysydd perthnasol i'w hatgoffa bod angen cyfathrebu'n glir ac yn rhadlon bob amser, yn enwedig wrth wisgo cyfarpar diogelu personol.

Enghraifft o Wers i'w Dysgu 3

Daeth nifer o gwynion i law am fideo BSL ynghylch Gwasanaethau Sgrinio a gyhoeddwyd ar sianel YouTube lechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd y fideo wedi'i greu fel prosiect cyd-gynhyrchu cymunedol a defnyddiwr gwasanaeth a gwirfoddolwr a oedd yn gyfrifol am yr arwyddo BSL. Nid oedd yn gyfieithydd BSL cymwys na chofrestredig. Cafwyd cwynion yn dweud bod y cyfieithiad BSL o dan y safon y byddid yn ei ddisgwyl.

Y gwersi i'w dysgu yw:

- ✓ Bod angen sicrhau wrth weithio ar brosiectau cymunedol sy'n creu gwybodaeth hygrych bod camau sicrhau ansawdd wedi'u cyflwyno i adolygu a chymeradwyo adnoddau o'r fath.
- ✓ Bod strwythur clir yn y sefydliad i ganfod cyflenwyr gwybodaeth hygrych, yn debyg i Fframwaith y Gymraeg.

Ar ôl i'r cwynion ddod i law, cynhaliwyd trafodaethau rhwng y gwasanaeth Sgrinio a Chymdeithas Pobl Fyddar Prydain i adolygu'r wybodaeth BSL ac i adolygu sut i ail-greu'r fideo BSL. Cam gweithredu a gofnodwyd fel rhan o'r ymchwiliad oedd gwneud rhagor o waith i ystyried creu rhestr o gyflenwyr i'r sefydliad, i wella caffael, ac i gyflwyno gweithdrefn sicrhau ansawdd gadarnach ar gyfer y math hwn o ddeunydd.

Ein Hystad

Mae gennyn ni ystad ym mhob rhan o Gymru. Er bod canllawiau Llywodraeth Cymru wedi parhau i annog staff i weithio gartref yn ystod y pandemig, rydyn ni wedi cydnabod bod anghenion busnes ac anghenion lles sy'n ei gwneud yn angenrheidiol i staff ddefnyddio ein hadeiladau. Mae cael llefydd diogel ac addas i weithio ynddyn nhw yn gam pwysig iawn sy'n ein galluogi i gyflawni ein gwaith. Cyflwynwyd camau penodol yn ein holl adeiladau i sicrhau eu bod yn ddiogel i'r staff sydd wedi gorfod eu defnyddio. Parhawyd i gadw pellter cymdeithasol yn y mannau gweithio, ac roedd yn rhaid gwisgo masgiau wrth gerdded o amgylch yr adeiladau.

Mae'n bwysig iawn ein bod yn sicrhau bod yr amgylchedd gweithio yn groesawgar a bod dod i'r gwaith yn opsiwn atyniadol i'r staff, a fydd yn helpu i gyflwyno'r cynllun peilot 'Gweithio ble mae'n gweithio orau'. Dros y misoedd nesaf, rydyn ni'n gobeithio gweld staff yn defnyddio mwy ar ein lleoliadau, gan fanteisio i'r eithaf ar fanteision ailgysylltu a chydweithio. Ar yr un pryd, mae'r staff yn cael eu hannog i gydbwyso gweithio 'ar y safle' gyda hyblygrwydd gweithio o bell, yn dibynnu ar natur y swydd, yn unol â'r cynllun peilot 'Gweithio ble mae'n gweithio orau'. Bydd y Tîm Gweithredol hefyd yn trafod safbwynt y sefydliad ynghylch cadw pellter cymdeithasol a gwisgo masgiau yn unol â'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill.

EIN POBL




Rydyn ni wedi ymateb mewn ffordd ddigynsail a pharhaus i bandemig y Coronafeirws. Mae natur ein hymateb wedi esblygu'n sylweddol dros y cyfnod hwn ac wedi golygu symud staff o bob rhan o'r sefydliad. Ochr yn ochr â hyn, dechreuwyd gwaith ar y goblygiadau mwy hirdymor uniongyrchol ac anuniongyrchol i iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

Mae ein cynnydd hyd yma wedi deillio o ymdrechion ac ymroddiad ein staff. Mae angen inni wir gydnabod effaith y sefyllfa hon ar ein pobl, yn bersonol ac yn broffesiynol, gan barhau i ganolbwyntio'n ystyrlon ar sicrhau ein bod yn blaenoriaethau ac yn cefnogi lles a gwydnwch ein staff.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae ein cynlluniau wedi gorfod rhoi sylw i anghenion mwy byrdymor, ond mae ein gweledigaeth fwy hirdymor, sef creu gweithlu ym maes iechyd y cyhoedd sy'n gynhwysol, yn frwd, yn gynaliadwy, yn hyblyg ac yn ymatebol, wedi llywio ein gwaith drwy'r cyfan. Mae camau i gynyddu capasiti ein gweithlu i ymateb yn well i anghenion y boblogaeth a diogelu lles ein gweithlu wedi bod yn greiddiol wrth barhau i ddarparu gwasanaethau, ac mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o dan brif amcanion strategol ein Strategaeth Pobl (2020-2030).

Ein gweithlu i wireddu dyfodol iachach i Gymru



Ein huchelgais

Datblygu gweithlu hyblyg, cynaliadwy a ffyniannus yn Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd â'r capasiti, y gallu a'r dyhead i gyflawni ein Strategaeth Hirdymor yn llwyddiannus.

Ein gwerthoedd

*Gweithio gyda'n gilydd
gydag ymddiriedolaeth a
pharch i wneud gwahaniaeth.*



Ein huchelgais hirdymor yw datblygu gweithlu hyblyg, cynaliadwy, amrywiol a ffyniannus, gyda'r gallu a'r capasiti i gyflawni ein blaenoriaethau strategol. I lywio'r gwaith hwn, rydyn ni wedi datblygu naw thema, a chyfres o gamau gweithredu yn sail i'r rheini. Mae'r rhain i'w gweld yn ein Strategaeth Pobl.

Mae ein pobl yn hollbwysig er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau arwyddocaol yn y tymor hir. Mae gennyn ni weithlu amrywiol, amlddisgyblaethol sy'n pontio'r cenedlaethau, ac mae angen inni sicrhau ein bod yn rhoi'r amgylchedd, y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i'n holl bobl er mwyn iddyn nhw allu ymateb i'r heriau sydd o'n blaenau. Rydyn ni am ddenu a chadw pobl ym maes iechyd y cyhoedd, er mwyn cyflawni ein Strategaeth Hirdymor, ac yn y pen draw, bydd hynny'n cael effaith bositif ar y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Rydyn ni'n dal i wynebu heriau sy'n effeithio ar y gwaith a wnawn ac ar ein gweithlu, fel argaeledd staff, ffyrdd newydd o weithio, a disgwyliadau a safbwyntiau'r staff. Mae ffactorau fel poblogaeth sy'n heneiddio, nifer mwy o bobl sy'n gweithio wrth heneiddio, heriau economaidd-gymdeithasol, effaith y pandemig, newid hinsawdd a phontio o'r Undeb Ewropeaidd i gyd yn effeithio ar ein staff ni, yn ogystal ag ar boblogaeth Cymru yn ehangach.

Mae ein hymateb i'r pandemig wedi gofyn am sefydlu perthnasau newydd yn gyflym drwy'r system, a hynny gyda phartneriaid presennol a

sefydliadau newydd. Mae hyn wedi creu cyfleoedd i'r staff feithrin cysylltiadau a rhwydweithiau newydd, a fydd o werth yn y tymor hwy. Mae perthnasau, partneriaethau ac arweinyddiaeth ym maes systemau yn hanfodol i adferiad ac ymateb y sefydliad, ynghyd ag i'w Strategaeth Hirdymor.

Fel rhan o Grŵp Trosolwg Diogelu Iechyd y Pedair Gwlad, mae Cymru wedi ymrwymo i arwain ar ddatblygu'r gweithlu ym maes diogelu iechyd, a bydd hyn yn galw am roi sylw penodol i ddatblygu a moderneiddio'r gweithlu Diogelu Iechyd fel elfen allweddol yn y weledigaeth o gryfhau'r system diogelu iechyd ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig. Pennwyd hon yn flaenoriaeth o bwys yn sgil y problemau sy'n bodoli ar hyn o bryd, er enghraifft o ran recriwtio a chadw staff (gan gynnwys diffyg capasiti ymhlith arbenigwyr diogelu iechyd craidd), ac mae angen mynd i'r afael â'r rhain.

Cafodd y sefydliad fuddsoddiad i gryfhau ac ehangu ein hadnoddau diogelu iechyd, sydd wedi bod yn hollbwysig wrth sicrhau gwydnwch strategol y sefydliad a diogelu iechyd poblogaeth Cymru. Rydyn ni'n parhau i recriwtio staff ychwanegol er mwyn sicrhau bod gennyn ni weithlu gwydn a chynaliadwy sy'n gallu diwallu unrhyw ofynion yn y dyfodol ym maes diogelu iechyd. Mae'r gwaith recriwtio wedi cynyddu'n ddramatig ac rydyn ni wedi ehangu ein defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn denu ymgeiswyr ansicr.

Absenoldeb oherwydd salwch

Roedd canran dreigl yr absenoldeb salwch dros 12 mis yn 4.26% rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022.

Lles y staff

Mae ein ffocws gwaelodol yn dal i fod ar sicrhau lles y staff, gan gyflwyno dull holistig o weithio lle mae hyn yn ganolbwynt i bopeth a wnawn.

Lansiwyd ein trydydd arolwg o les y staff ym mis Tachwedd 2021, gyda'r nod o sicrhau bod gennyn ni well dealltwriaeth o'r hyn sydd wedi gweithio'n llwyddiannus a'r pethau y mae angen inni eu gwella. Mae'r gwaith dadansoddi wedi ein galluogi i ganfod tair thema allweddol i'w hystyried ymhellach, sef cyfathrebu ac ymgysylltu, y diwrnod gwaith, ac arweinyddiaeth a rheol llinell. Byddwn yn parhau i weithio ar y themâu hyn mewn partneriaeth â chydweithwyr ymhlith y staff, rhwydweithiau'r staff, ac arweinwyr cyfarwyddiaethau ac is-adrannau.

Bu sicrhau bod gan ein rheolwyr llinell gefnogaeth yn flaenoriaeth ers tro, ac rydyn ni'n dal i gynnig Gweithdai Lles i Reolwyr llinell, ynghyd â chwrs ochr yn ochr â'r rhain i staff sydd heb gyfrifoldebau rheoli llinell. Mae modd manteisio o hyd ar adnoddau iechyd meddwl cenedlaethol, ynghyd ag ar ein Rhaglen Gymorth i Weithwyr, drwy Care First. Mae'r cymorth i dimau wedi bod ar gael drwy gynllun i ofalu am les timau, sy'n ceisio rhoi gofod diogel i staff grybwyll camau y mae angen eu cymryd i wella eu lles. Mae cymorth hunanofal ar gael drwy ein sesiynau Care Space, sydd ar agor i'r holl staff. Rydyn ni wedi parhau i gynnig rhaglen ddatblygu i'n rheolwyr newydd, sy'n cynnwys helpu rheolwyr i gael sgysiau gonest, datblygu perthnasau gweithio iach, a rheoli presenoldeb yn y gwaith, yn unol â'n polisi a'n gweithdrefnau tosturiol.

Dylai "Gweithio ble mae'n gweithio orau" lansio ym mis Mai fel treial deuddeg mis i roi mwy o hyblygrwydd a dewis i bawb, er mwyn i'r staff gael mwy o gytgord rhwng gwaith a bywyd mewn ffyrdd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at eu hiechyd a'u lles.



Cyflawniadau'r staff

Gwobrau Arloesi mewn Gofal Iechyd Cymru

Cafodd Dr Benjamin Johns, Gwyddonydd Clinigol dan Hyfforddiant, ei enwi'n enillydd y wobr am brosiect rhagorol gan fyfyrwr sy'n helpu Cymru i symud yn ei blaen, a hynny am ei waith ar gyflwyno technoleg foleciwlaidd ar gyfer brigiadau o achosion o glefydau heintus sy'n cael eu cludo mewn bwyd.

Cyfrannodd cydweithwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd at y prosiect profi cyflym am Hepatitis C, a hwnnw'n ennill y wobr am wella canlyniadau ym maes iechyd y cyhoedd. Y tîm ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a arweiniodd yr arloesi hwn, ond datblygodd y cynllun o ganlyniad i flynyddoedd lawer o waith i brofi a chyflwyno llwybrau triniaeth fel rhan o'r rhwydwaith feirysau a gludir yn y gwaed. Cyfrannodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sylweddol at y gwaith hwn, ac ymhlith y staff a gynorthwyodd roedd Jane Salmon, Nicki Palmer a Louise Davies.

Gwobrau Nyrs y Flwyddyn Blynyddol Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru

Cyflwynwyd Caroline Whittaker fel enillydd y Wobr am Gyfraniad Oes, a hynny wedi gyrfa mewn nifer o feysydd nyrsio gwahanol: bu'n nyrs filwrol ac yn nyrs iechyd galwedigaethol, gwnaeth waith academiaidd ym maes nyrsio, a bellach mae ganddi swydd ym maes Ansawdd a Nyrsio yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Enwyd Sharon Williams o Gwelliant Cymru yn ail am wobr yn y categori Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl.

Urddo Cyfarwyddwr Cenedlaethol yn Gymrawd yr Academi Gwyddorau Cymdeithasol


Cafodd Iain Bell, Cyfarwyddwr Cenedlaethol ein tîm Data, Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd, ei urddo yn Gymrawd yr Academi Gwyddorau Cymdeithasol.

Caiff cymrodwr eu cydnabod, ar ôl proses adolygu annibynnol gan gymheiriaid, am ragoriaeth ac effaith eu gwaith a'u cyfraniadau ehangach at y gwyddorau cymdeithasol er budd y cyhoedd.

CASGLIAD AC EDRYCH YMLAEN



Rydyn ni wedi creu cynlluniau uchelgeisiol i ddarparu ein gwaith dros y tair blynedd nesaf. Yr heriau sy'n wynebu iechyd poblogaeth Cymru sydd wedi llywio'r pwyslais a'r camau gweithredu yn y cynlluniau hynny, yn benodol o ganlyniad i bandemig COVID-19 ac anghydraddoldebau iechyd sydd wedi bodoli ers tro. Rhaid inni hefyd fod yn barod i ymateb i heriau i iechyd y cyhoedd yn y dyfodol, yn enwedig wrth i'r argyfwng yn Wcráin esblygu.



Wrth ymateb i'r heriau hyn, rydyn ni'n cydnabod bod angen inni gynnal ein gallu i weithio'n ddynamig ac yn hyblyg, gan gynnwys symud adnoddau i gyd-fynd â blaenoriaethau o bwys wrth i'r rheini ddod i'r amlwg. Bydd hyn yn golygu bod yn rhaid inni barhau i adolygu'r Cynllun hwn a'i addasu'n unol â hynny.



Byddwn yn ateb yr heriau hyn, ac yn cyflawni ein Cynllun Strategol yn llwyddiannus drwy ymroddiad, proffesiynoldeb ac ymdrechion diflino'r holl staff. Bydd eu hymdrechion yn ein galluogi i barhau i ateb yr heriau hyn benben, ac ni allwn ddiolch iddyn nhw ddigon am hynny.



DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL



Yr Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd

Mae'r Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd yn helpu Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan annog unigolion a thimau i groesawu newid a mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio. Er gwaethaf heriau COVID-19, mae'r Hwb wedi parhau i ddarparu amrywiaeth o adnoddau i helpu'r sector cyhoeddus i ymateb gan hyrwyddo ac annog adferiad gwyrdd yn dilyn y pandemig.

Dyma grynodedb o'i brif lwyddiannau:

Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio

Ac ystyried yr argyfwng hinsawdd sy'n ein hwynebu, a'r rhyng-gysylltiadau rhwng iechyd y blaned a iechyd pobl, mae'r Hwb wedi bod yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau i fwrw ymlaen â gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ym maes datgarboneiddio:

- ✓ **Cynllun Gweithredu Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Datgarboneiddio 2022-2024**, a ddatblygwyd ar y cyd â phob cyfarwyddiaeth a maes gwasanaeth, a hwnnw'n cyflwyno camau gweithredu o dan bum pennawd – rheoli carbon; adeiladau, rheoli'r ystad a defnyddio tir; trafnidiaeth a theithio; caffael; a dulliau o ddarparu gofal iechyd a gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r cynllun hefyd yn dangos y cysylltiadau rhwng bioamrywiaeth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwreiddio'r pum ffordd o weithio wrth gyflawni camau gweithredu. Bydd **ffeithlun** i ddangos sut y gall pobl weithredu i leihau allyriadau carbon yn y gwaith a gartref yn cael ei gyhoeddi cyn hir.
- ✓ **Hyfforddiant mewn Llythrennedd Carbon**: cafodd tua 50 aelod o staff o Iechyd Cyhoeddus Cymru a Byrddau Iechyd sesiynau mewn llythrennedd carbon, a'r rheini wedi'u darparu gan Cynnal Cymru, i helpu pobl i ddeall y cysylltiadau rhwng gweithgarwch pobl a newid hinsawdd, ac i rymuso unigolion, cymunedau a sefydliadau i weithredu a lleihau eu hallyriadau carbon. Ar ôl cwblhau cynllun gweithredu, bydd yr holl staff yn cael eu hachredu.
- ✓ **Canfod effaith pandemig COVID-19 ar ein hôl-troed carbon**: rydyn ni'n bwriadu casglu data i asesu effaith y pandemig ar ein hôl-troed carbon, drwy gasglu data sefydliadol ynghyd â data a gasglwyd gan staff am eu hôl-troed carbon personol wrth weithio gartref.
- ✓ **Helpwyd y tîm cyfleusterau a'r gwasanaeth sy'n sgrinio am ymlediad aortaidd yn yr abdomen** i ddiweddarau rhan o'u fflyd i gerbydau trydan, gan osod mannau gwefru cerbydau trydan mewn lleoliadau strategol ledled Cymru.
- ✓ **Y Siarter Teithio Llesol**: mae'r Hwb wedi bod yn cefnogi cynnydd o dan ymrwymiadau'r siarter gan gynnwys hyrwyddo teithio llesol a chynaliadwy fel rhan o Ddiwrnod y Siarter Teithio Llesol ym mis Medi 2021.

Codi ymwybyddiaeth

Rydyn ni wedi parhau i ddatblygu e-friffiau ac adnoddau eraill i ganfod gwersi i'w dysgu, gan rannu'r arferion gorau i helpu i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy adferiad gwyrdd, a chanfod cyfleoedd cynaliadwy i hybu iechyd y boblogaeth;

- ✓ **E-friff Cyfleoedd Gwyrdd:** mae pedwar rhifyn chwarterol wedi'u cyhoeddi am amrywiaeth o bynciau gan gynnwys bioamrywiaeth, pwysigrwydd byd natur i iechyd a lles, teithio llesol a'r economi gylchol. Maen nhw i gyd yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth, diweddariadau, ffeithiau pwysig a chynghor.
- ✓ **Rhwydwaith mewnol Eiriolwyr Gwyrdd y staff:** sefydlwyd y rhwydwaith hwn ym mis Mawrth 2021, ac mae 86 aelod o staff yn perthyn iddo. Maen nhw'n dod ynghyd mewn sesiynau anffurfiol dros ginio bob chwarter, gan allu trafod, dysgu a gweithredu ar lefel unigolion a lefel timau. Mae'r trafodaethau yn ystod 2021-22 wedi canolbwyntio ar ddatgoedwigo, gan ddefnyddio'r celfyddydau i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o newid hinsawdd, deietau cynaliadwy a chynaliadwyedd ar waith.



Datblygu adnoddau a meithrin capasiti

Mae'r Hwb wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau a phecynnau cymorth ymarferol i helpu a galluogi unigolion a thimau i wreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu prosesau cynllunio a chyflawni:

- ✓ **Gweithdy Amgylchedd Iach SIFT:** a hwnnw wedi'i lansio'n ddiweddar, mae Cynlluniwr Amgylchedd Iach 'SIFT' yn weithdy dwyawr rhithwir i alluogi timau yn y gweithle (ac aelodau unigol o dimau) i ganfod camau gweithredu er mwyn lleihau eu heffeithiau amgylcheddol. Mae wedi'i seilio ar dair thema – datgarboneiddio, bioamrywiaeth, effeithlonrwydd adnoddau/dim gwastraff.
- ✓ **Gweithdai Hyfforddi Hwylusydd Amgylchedd Iach SIFT:** i helpu gyda'r Cynlluniwr, trefnwyd deg sesiwn i hyfforddi hwyluswyr o'r sector cyhoeddus i ddarparu gweithdy Amgylchedd Iach ar-lein SIFT yn eu sefydliadau'u hunain.
- ✓ **Gweithdai Galwad i Weithredu:** Cynhaliwyd chwe gweithdy i ymwneud â staff GIG Cymru, gan weithio drwy'r maes lechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru i ganfod camau gweithredu i leihau ein heffaith ar newid hinsawdd. Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth am fygythiad newid hinsawdd a'r effaith ar iechyd a lles y staff, canfuwyd camau gweithredu, ar gyfer bywyd gartref ac yn y gwaith, i helpu GIG Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i leihau allyriadau er mwyn cyflawni carbon sero net.
- ✓ **Byddwch y Newid – Gweithio Gartref a Gweithio Ystwyth Cynaliadwy:** tdyma'r wythfed e-ganllaw yn nghyfres 'Byddwch y Newid' yr Hwb, sy'n cyflwyno camau cynaliadwy y gall timau ac unigolion mewn unrhyw sefydliad eu dilyn wrth weithio gartref neu weithio'n ystwyth er mwyn cyfrannu at nodau llesiant Cymru. Mae'n rhoi sylw i bum maes cynaliadwyedd: gweithfan y cartref, TG, lles meddyliol, cinio a chymudo/teithio.
- ✓ **Her Nodau Llesiant Byddwch y Newid:** mae'r her hon yn annog ac yn cefnogi timau ac unigolion mewn unrhyw sefydliad i fodelu dewis o chwech ymddygiad cynaliadwy, mewn meysydd fel ffasiwn araf, deiet planhigion, tuag at ddyfodol diwasttraff, teithio llesol, defnyddwyr moesegol, a hybu bywyd gwyllt.
- ✓ **Arwain y Ffordd tuag at Blaned Gynaliadwy – Gweithredu Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig – Pecyn cymorth ar gyfer sefydliadau byd-eang:** cafodd y pecyn cymorth hwn ei greu wrth inni gymryd rhan yn rhaglen JAHEE (Gweithredu ar y Cyd dros Degwch lechyd yn Ewrop) i helpu sefydliadau byd-eang i roi Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig ar waith. Mae astudiaethau achos cynaliadwy'n cael sylw dros bum lefel ar gyfer cyflwyno newid cynaliadwy (lefelau gwledydd, systemau, sefydliadau, timau ac unigolion), ac mae'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau ymarferol a graffigol.

'Adnoddau ar gyfer Iechyd Cynaliadwy': bydd e-gatalog o holl adnoddau'r Hwb yn cael ei gyhoeddi cyn hir, gan ddwyn ynghyd yr amrywiaeth o adnoddau a phecynnau cymorth ar-lein sydd wedi'u creu gan yr Hwb i helpu sefydliadau ac unigolion i ystyried yr amgylchedd naturiol, iechyd y blaned ac iechyd pobl ym mhopeth y byddan nhw'n ei wneud.

Dolen i adnoddau'r Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd:

<https://phwwhocc.co.uk/timau/health-and-sustainability-hub/?lang=cy>

